LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
UNED Y CYNLLUN GOFODOL

Y BROSES YMGYNGHORI YNGLŶN Â CHYNLLUN GOFODOL CYMRU

Kevin Murray Associates - Drew Mackie Associates

Cynllun Gofodol Cymru
Adroddiad ar y Broses Ymgynghori - Mawrth 2004

Crynodeb gweithredol 1

1 Cyflwyniad 1

1.1 Y client, ac amcanion cyffredinol y broses 3
1.2 Y digwyddiadau, a'r cyfranogwyr (y bobl a gymerodd ran) 3
1.3 Crynodeb o'r dull a ddefnyddiwyd 5

2 Sylwadau ar y broses ymgynghori 6

2.1 Y cyfranogwyr (y bobl a gymerodd ran) 6
2.2 Paratoi digwyddiad 6
2.3 Rhedeg diwgyddiad 7
2.4 Wedi'r digwyddiad 14

3 Atborth ar gyfansoddiad y Cynllun 15

3.1 Rôl a phwrpas strategol 15
3.2 Rôl y parthau 16
3.3 Sylwadau ac argymhellion allweddol fesul ardal 17
3.4 Sylwadau allweddol fesul thema/sector ar draws Cymru 28
– yr Amgylchedd 28
– yr Economi 29
– y Gymuned 30
– Hygyrchedd 31

4 Symud Cynllun Gofodol Cymru yn ei flaen 33

4.1 Cynllun Pwy? – perchenogaeth a statws cyfreithiol ffurfiol 33
4.2 Rhwydweithiau rhanbarthol 34
4.3 Cysylltu ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) 34

Atodiadau 36

1 Y rhai a fu'n bresennol yn y lansiad yn Llandudno 36
2 Y rhai a fu'n bresennol yn y lansiad yng Nghaerdydd 37
3 Y rhai a fu'n bresennol yn y Gweithdy Treialu 39
4 Bae Ceredigion 40
5 Dwyrain Powys 41
6 Gogledd-Ddwyrain Cymru 42
7 Menai 43
8 Cefn Gwlad 44
9 Bae Abertawe 45
10 Sir Benfro 46
11 De-Ddwyrain Cymru 47

Crynodeb Gweithredol

Cafodd cwmnïau Kevin Murray Associates a Drew Mackie Associates eu comisiynu gan Uned Cynllun Gofodol Cymru i ymgymryd â chyfres o ddigwyddiadau ymgynghori cynorthwyedig mewn perthynas â Chynllun Gofodol Drafft Cymru: *Pobl, Lleoedd, Dyfodol.* Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r digwyddiadau ymgynghori hyn, a gafodd eu cynnal ar gyfer amrediad eang o gyfranogion ledled Cymru rhwng Hydref 2003 ac Ionawr 2004.

Cyn y brif gyfres o wyth digwyddiad ledled Cymru, cafwyd dau 'lansiad', un yn Llandudno a'r llall yng Nghaerdydd. Dilynwyd y rhain gan ddigwyddiad treialu er mwyn rhoi'r broses a'r technegau tynnu trafodaeth ar brawf.

Ar ôl mireinio'r rhaglen a'r 'pecyn gwaith' o dasgau, cafodd y digwyddiadau ymgynghori eu cynnal ar draws Cymru. Cafwyd ymateb da, o ran presenoldeb, gan rai cannoedd o gyfranogwyr (pobl a gymerodd ran) o amryiaeth o feysydd yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol — yn arbennig meysydd cynllunio, yr amgylchedd a datblygu economaidd. O'u cymharu â'r rhain, yr oedd y sector busnes, y sector datblygu a'r sector gwleidyddol wedi eu tan-gynrychioli, braidd.

At ei gilydd, yr oedd y cyfranogwyr o'r farn fod y broses tynnu trafodaeth yn llwyddiant o ran ennyn trafodaeth hawdd i'w deall ar elfennau'r Cynllun, ac o ran ysgogi meddwl ynglŷn â sut i symud y rhain yn eu blaenau mewn modd cydweithrediadol.

Wrth i'r broses ymgynghori fynd rhagddi, dysgasom wersi ynglŷn a lefelau ymwybyddiaeth y cyfranogwyr (a oedd yn uchel at ei gilydd) ac ynglŷn â sut i wneud unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol yn haws i'w dilyn ac yn fwy effeithiol.

Yr oedd y digwyddiadau'n galluogi'r cyfranogwyr i archwilio Cynllun Gofodol Cymru mewn nifer o wahanol ffyrdd — o'r egwyddorion cenedlaethol a'r amcanion craidd i'r modd y maent yn cael eu troi'n weithredoedd a chydweithrediadau yn unol â themâu penodol. Mae cynnyrch y prosesau hyn yn cael ei grynhoi yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion dilynol ar gyfer ardaloedd unigol.

Yn ogystal â rhestru'r argymhellion ar gyfer pob ardal sydd wedi ei nodi yn y Cynllun, mae arolwg o'r canfyddiadau'n cael ei ddarparu fesul sector — gan ymdrin â'r Amgylchedd, yr Economi, y Gymuned a Hygyrchedd, sydd i bob pwrpas yn bedwar conglfaen y Cynllun. Cafwyd cryn amrywiaeth ar draws Cymru, a dim ond ychydig o themâu a oedd yn gyffredin. Fodd bynnag, lle maent wedi eu nodi a lle maent yn berthnasol, mae argymhellion ar gyfer dyfodol y rhain wedi eu darparu hefyd. Mae hyn wedi cynnwys ystyriaethau megis:

- Yr angen i wella'r amgylchedd, nid i'w warchod yn unig
- Rolau cadarnhaol adnoddau dŵr glan môr a mewndirol
- Yr angen am amrywiad economaidd, ac am gyfuniadau o fedrau a fydd yn cynnal hyn
- Yr angen am strategaethau cludiant sydd yn cynyddu mynediad i gyfleoedd economaidd
- Yr angen am isadeiledd TGCh cryf a'r diwylliant cysylltiedig, er mwyn cryfhau cymunedau a chynnal cyfle economaidd
- Pwysigrwydd edrych y tu hwnt i Gymru er mwyn mynd i'r afael â chyfleoedd trwy ymgysylltu â Lloegr, gweddill y Deyrnas Gyfunol, ac Ewrop

Mae pwysigrwydd y gofynion hyn — rhai ohonynt â pherthnasedd neilltuol i ardal neu is-ranbarth penodol — yn golygu bod y modd y mae cynigion yn cael eu symud yn eu blaenau trwy ddefnyddio dull traws-sectoraidd yn arbennig o bwysig.

Yr ydym hefyd yn credu bod archwilio'r cysyniad o ardal gylchfaol, sydd yn nodwedd o'r Cynllun drafft, wedi ei gwneud yn bosibl i gynnal trafodaeth adeiladol, ond bod yr ymgynghori'n dangos yr angen i'r cysyniad hwn esblygu ymhellach yn nrafft nesaf y Cynllun.

Yr oedd llawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn codi cwestiynau ynglŷn â rôl a statws y Cynllun Gofodol, yn enwedig sut y byddai ei ddarpariaethau'n cael eu dilyn drwodd mewn gwahanol ffyrdd. Yr oedd mwyafrif y rhai a gymerodd ran yn croesawu natur gynhwysol y Cynllun, a'r fframwaith gyfeiriol eang ar gyfer gweithredu a oedd yn cael ei sefydlu ganddo.

Fodd bynnag, mynegwyd rhai amheuon yn y rhan fwyaf o'r sesiynau ynglŷn â sut y gellid symud gwaith cydweithrediadol yn ei flaen yn effeithiol — naill ai ar lefel genedlaethol neu ar lefel ardal leol. Cafwyd sawl awgrym y dylai fod gan y Cynllun statws cyfreithiol cryfach a fyddai'n ei wneud yn haws i'w orfodi, ac awgrymodd llawer na fydd ganddo ddigon o finiogrwydd oni bai bod yna gysylltiadau gyda chyfundrefnau ariannu.

Yr oedd y dull partneriaethol hwn o weithredu'r Cynllun yn un o'r themâu a ymddangosodd dro ar ôl tro yn ystod yr yngynghori, gyda chydnabyddiaeth gref yn ei hamlygu ei hun, yn ystod y trafodaethau ar weithredu, o'r posibilrwydd y bydd angen amrediad eang o bartïon i weithredu rhai argymhellion a gwireddu rhai dyheadau.

Tra pwysleisiwyd rôl llawer o'r partneriaid cyfranogol ym mhob diwgyddiad o ran symud y Cynllun yn ei flaen, yn arbennig felly rôl llywodraeth leol a llawer o gyrff amgylcheddol, yn ogystal ag amrediad o ymgymerwyr statudol ac Awdurdod Datblygu Cymru, cydnabuwyd bod cefnogaeth bendant gwahanol ganghennau Llwyodraeth Cynulliad Cymru, a chyfraniad gan Gyrff Cyhoeddus cenedlaethol a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs), yn gwbl hanfodol ar gyfer gweithredu'r Cynllun mewn modd effeithiol a chyfunol.

1 Cyflwyniad

1.1 Y client, ac amcanion cyffredinol y broses

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori a thynnu trafodaeth a gafodd eu cynnal fel rhan o'r ymgynghoriad ar Gynllun Gofodol drafft Cymru: *Pobl, Lleoedd, Dyfodol*. Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n paratoi adroddiad ar wahân ynglŷn â chanlyniadau'r broses ymgynghori ffurfiol.

Cafodd y Cynllun drafft ei baratoi gan Uned Cynllun Gofodol Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2003, a chafodd ei lansio gan Sue Essex AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, mewn dau wahanol ddigwyddiad — ar 17 Hydref 2003 yn Llandudno, ac ar 20 Hydref yng Nghaerdydd.

Cafodd cwmnïau Kevin Murray Associates a Drew Mackie Associates eu comisiynu gan Uned Cynllun Gofodol Cymru i ymgymryd â chyfres o ddigwyddiadau ymgynghori cynorthwyedig ledled Cymru, gan alluogi'r rhai a fyddai'n cymryd rhan i archwilio'r Cynllun drafft a chynnig sylwadau arno.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb 'trosfwaol' o'r broses hon. Ceir atborth manylach o bob sesiwn mewn set o wyth adroddiad technegol ategol sydd yn cyfochri â'r ddogfen hon.

Mae'r crynodeb hwn yn egluro'r broses ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â phroses a chynnwys y Cynllun, ar sail yr ymgynghori. Disgwylir y bydd yn cyfrannu at ddatblygiad pellach y Cynllun, a hefyd at y modd y bydd cyfranogion yn cymryd rhan bellach yn y broses.

1.2 Y digwyddiadau, a'r cyfranogwyr (y bobl a gymerodd ran)

Cyn y gyfres o wyth diwgyddiad ar draws Cymru, cafwyd y ddau lansiad, pob un gydag amrediad eang o gyfranogwyr ar lefel uchel. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn Atodiadau 1 a 2. Yr oedd y sesiynau lansio hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan:

Yn Llandudno	**Yng Nghaerdydd**
Sue Essex AC	Sue Essex AC
Alan Pugh AC	Jane Hutt AC
Grant Duncan, Uned Cynllun Gofodol Cymru	Grant Duncan
Vincent Nadin, Prifysgol Gorllewin Lloegr	Ken Sterret, Prifysgol Queens, Belffast
Kevin Murray a Drew Mackie	Kevin Murray a Drew Mackie

Cafwyd trafodaeth ym mhob un o'r digwyddiadau hyn — yn ymwneud yn bennaf â natur y Cynllun, sut y byddai'n cael ei weithredu neu ei orfodi, a'r berthynas yr

oedd yn ei dwyn ag agweddau eraill ar weithgarwch Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyn symud ymlaen at y digwyddiadau ymgynghori ffurfiol, cafodd **digwyddiad treialu** ei gynnal yng Nghaerdydd er mwyn gweld a oedd y dull bwriedig yn helpu pobl i ddeall yr ystyriaethau, ac a oedd angen unrhyw fireinio ar y rhaglen ddrafft. Mae'r rhai a gymerodd ran wedi eu rhestru yn Atodiad 3.

Dysgwyd nifer o wersi, yn ystod y digwyddiad treialu hwn, ynglŷn â chyflwyno gwybodaeth, lefel yr ymwybyddiaeth y dylid ei rhagdybio yn y cyfranogwyr, a'r modd yr oeddem yn defnyddio cardiau a oedd yn dangos elfennau allweddol y Cynllun.

Wedi mireinio'r rhaglen a'r 'pecyn gwaith' o dasgau, cafodd y digwyddiadau ymgynghori eu cynnal ar draws Cymru, pob un mewn lleoliad yn un o'r 'ardaloedd' a oedd wedi eu dynodi yn y Cynllun. Y lleoliadau oedd:

Bae Ceredigion (Parth Pinc)	Aberystwyth, 11 Tachwedd
Dwyrain Powys (Parth Pinc)	Y Drenewydd, 12 Tachwedd
Gogledd-Ddwyrain Cymru (Parth Oren)	Wrecsam, 26 Tachwedd
Menai (Parth Melyn)	Caernarfon, 27 Tachwedd
Rhaeadr Gwy (Parth Gwyrdd)	Cwm Elan, 2 December
Bae Abertawe (Parth Melyn)	Porth Talbot, 9 Rhagfyr
Hafan Sir Benfro (Parth Melyn)	Castell Picton, 10 Rhagfyr
De-Ddwyrain Cymru (Parth Oren)	Trefforest, 6 Ionawr

Mae'r rhai a gymerodd ran ym mhob un o'r digwyddiadau hyn wedi eu rhestru, yn eu tro, yn Atodiadau 4 i 11.

1.3 Crynodeb o'r dull a ddefnyddiwyd

Bwriad gweithdai'r Cynllun Gofodol oedd:

- datblygu gorolwg ar ddarpariaethau'r Cynllun yn ôl eu perthnasoldeb i'r ardal leol lle cynhaliwyd y gweithdy
- caniatáu llais i bawb yn y cyfarfod o ran cynnig sylwadau ar y Cynllun ac awgrymu sut y gellir ei weithredu
- caniatáu i'r cyfranogwyr ychwanegu at, newid neu wrthod sialensiau lleol
- darparu man cychwyn ar gyfer dadl bahaus ynglŷn â'r Cynllun Gofodol

Yn dilyn cyflwyniadau i gyfansoddiad y Cynllun, yr oedd sesiynau'r boreau a'r prynhawniau yn canolbwyntio ar drafodaethau grŵp gweithdy. Canolbwyntiodd y sesiynau boreol ar themâu'r Cynllun, tra bod y sesiynau prynhawn yn edrych ar y posibiliadau ar gyfer ei weithredu.

Yn ogystal â hynny, cafodd pob cyfranogwr/aig ddalen atborth ar gyfer cloriannu a oedd yn digwyddiad yn cyflawni ei amcanion.

2 Sylwadau ar y broses ymgynghori

2.1 Y cyfranogwyr (y bobl a gymerodd ran)

Fel y mae'r rhestrau a geir yn yr Atodiadau'n dangos, yr oedd y cyfranogwyr yn dod o amrediad eang o sectorau a chyrff ledled Cymru, yn bennaf y rhai a oedd wedi derbyn gwahoddiad penodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yr oedd swyddogion o lywodraeth leol yn amlwg ymysg y cyfranogwyr — yn enwedig rhai oedd â swyddogaethau cynllunio a datblygu economaidd, ynghyd â rhai cynrychiolwyr o feysydd cludiant a strategaeth gymunedol. Yr oeddynt hefyd yn cynnwys rhai cynrychiolwyr o'r tu allan i Gymru mewn rhai achosion, er enghraifft yn nigwyddiad y Gogledd-Ddywrain yn Wrecsam.

Cafodd Awdurdod Datblygu Cymru, Asiantaeth yr Agylchedd Cymru, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig a Chyngor Cefn Gwlad Cymru eu cynrychioli'n bur aml, a chafwyd cynrychiolaeth resymol o'r gwahanol fuddiannau amgylcheddol ym mhob sesiwn.

Mewn rhai digwyddiadau, cafodd cyrff megis Dŵr Cymru, y Parciau Cenedlaethol, y Bwrdd Croeso, y gwasanaethau Heddlu a Thân, undebau amaethwyr, Prifysgolion, a phorthladdoedd eu cynrychioli'n benodol, yn arbennig lle'r oedd ganddynt ddiddordeb lleol neu rôl leol bosibl i'w chwarae.

Cyfwyd cynrychiolaeth achlysurol o'r sectorau addysg, medrau, eglwysi, a phlant. At hynny, cafodd y sefydliadau proffesiynol megis RIBA, RICS a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol eu cynrychioli hefyd mewn digwyddiadau unigol.

Isel oedd lefel y gynrychiolaeth wleidyddol gan aelodau etholedig, ac yr oedd yr un peth yn wir am y sector busnes a'r gymuned ehangach. Cafwyd cynrychiolaeth gyfyngedig o wahanol rannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd.

At ei gilydd, y prif gyfranogwyr oedd y cyrff a'r unigolion hynny a oedd yn debygol o gymryd rhan mewn symud agweddau ar y Cynllun yn eu blaenau, o bosib mewn rhyw rwydwaith partneriaeth lleol. Yr oedd rhai ohonynt eisoes wedi sefydlu rhwydweithiau o'r fath — er enghraifft yng Nghanolbarth Cymru.

Argymhellion:

1. ***Yr ydym yn argymell y dylid parhau i fwydo'r holl gyfranogwyr a gwahoddedigion (gan gynnwys y rhai nad oeddynt yn gallu bod yn bresennol) â'r wybodaeth ddiweddaraf ac â chyfleoedd am gael eu cynnwys mewn trafodaethau.***
2. ***Yr ydym yn argymell y dylai Uned Cynllun Gofodol Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer tynnu'r canlynol i drafodaethau wrth i'r Cynllun esblygu o ran ei gynnwys a'i gynigion:***
   - ***y sector busnes ac economaidd***
   - ***y sector datblygu ac eiddo***
   - ***y rhwydweithiau cymunedol ehangach***
   - ***gwleidyddion — cenedlaethol a lleol***
   - ***gwahanol adrannau a swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru***

2.2 Paratoi digwyddiad

Wedi i restr gynhwysfawr o gyfranogwyr posibl gael ei llunio, anfonwyd dros 200 o wahoddiadau at brif weithredwyr Awdurdodau Lleol, Swyddogion Partneriaeth Strategaeth Gymunedol, ac asiantaethau a chyfranogion perthnasol eraill. Cafodd gwahoddiadau eu hanfon at adrannau perthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal.

Dilynwyd y gwahoddiadau gan alwadau ffôn a negeseuon e-bost er mwyn helpu i sicrhau bod trawsdoriad cynrychioliadol o sefydliadau yn bresennol ym mhob digwyddiad.

Derbyniodd pawb a oedd wedi ymateb i'r gwahoddiad gyfarwyddiadau mewn perthynas â'r lleoliad a'r man cyfarfod yr oeddynt wedi dewis bod yn bresennol ynddynt.

Dangosodd yr atborth fod y rhan fwyaf o'r mannau cyfarfod yn dderbyniol, ond mewn ambell achos teimlwyd bod y man cyfarfod yn llai na delfrydol, am resymau megis diffyg lleoedd parcio, cludiant cyhoeddus, neu fynediad ar gyfer pobl anabl. Yr oedd maint y man cyfarfod yn broblem ar gyfer rhai digwyddiadau, er na fu'n bosibl rhagweld y niferoedd cyn llogi mannau cyfarfod a dosbarthu gwahoddiadau.

Argymhellion i'r dyfodol:

3 Yr ydym yn argymell:

- ***y dylid cynnal arolwg ymlaen llaw o'r mannau cyfarfod, o ran eu maint, eu hygyrchedd a'r mynediad sydd ar gael ar gyfer pobl anabl***
- ***y dylid dosbarthu gwahoddiadau drwy'r post ac yn electronig***
- ***y dylid anfon rhagor o fanylion ynglŷn â sut i gyrraedd y man cyfarfod***

2.3 Rhedeg digwyddiad

Datblygwyd strwythur ar gyfer y diwrnodd, a chafodd ei fireinio o ganlyniad i'r diwgyddiad peilot. Gwnaed addasiadau bychain pellach yn dilyn digwyddiadau unigol, gyda'r nod o wneud y diwrnod yn fwy effeithiol i'r rhai a oedd yn cymryd rhan.

Dechreuodd y digwyddiadau undydd gyda chyflwyniad byr lle'r eglurwyd patrwm y diwrnod ac amlinellwyd prif bwyntiau Cynllun Gofodol Cymru. Diddorol oedd sylwi bod mwyafrif y cyfranogwyr yn gyfarwydd eisoes â'r Cynllun. Derbyniwyd cwestiynau cyffredinol; yr oedd llawer o'r rhain yn canolbwyntio ar sut y byddai'r Cynllun yn cael ei symud yn ei flaen a'i weithredu gan y Cynulliad ac eraill.



Ymrannodd y cyfranogwyr wedyn yn grwpiau, o tua saith neu wyth fel rheol, er mwyn:

pwyso a mesur (a newid pe bai angen) y Priodoleddau Parth a oedd wedi eu nodi yn y Cynllun, ac a oedd wedi eu dangos ar 'Fatrics Cynaladwyedd' (isod), a oedd yn dosbarthu pedwar Amcan 'trosfwaol' y Cynllun dan y penawdau Cadarn, Sefydlog neu Bregus
defnyddio set o gardiau a oedd yn dangos amcanion a gweithredoedd y Cynllun, er mwyn:
trafod perthnasedd lleol yr heriau
eu blaenoriaethau
awgrymu hyd y raddfa amser ar gyfer eu gweithredu

Yr oedd hwylusydd yn gwmni i bob grŵp drwy gydol y digwyddiad, ac fe ysgrifennodd nodiadau ar y trafodaethau.

Y Matrics Cynaladwyedd

Arfarnodd y cyfranogwyr sut yr oedd eu hardal yn perfformio mewn perthynas â'r themâu 'trosfwaol', sef yr Amgylchedd, y Gymuned, Ffyniant Economaidd a Hygyrchedd. Cysylltiasant hyn â'r ddiagram sydd yn dangos y perfformiad mewn perthynas ag amcanion y Cynllun. Mae'r rhain yn cael eu dosbarthu fel a ganlyn:

Cadarn — yn gallu gwrthsefyll ergydion allanol

Sefydlog — yn iawn ar hyn o bryd, ond gallai hyn newid yn wyneb ergydion allanol

Bregus — mewn perygl

Cafodd yr holl gyfranogwyr ddiagram arwyddol wedi ei gwblhau (gweler y matrics "YN AWR"), sydd yn dangos awgrym o 'gynnig cyntaf' ar sefydlu beth yw'r perfformiad lleol. Newidiasant y diagram hwn i weddu i'w canfyddiadau eu hunain ynglŷn â pherfformiad eu hardal ("YN AWR" cywiriedig).



Mae'r diagramau'n dangos:

1 Y Matrics "Yn Awr" a luniwyd ar ôl trafodaeth grwp (cyfartaledd yr holl grwpiau)

2 Y Matrics ar ôl ei addasu I ddangos effeithiau gweithredu'r Cynllun (cyfartaledd yr holl grwpiau)

Blaenoriaethau a Graddfeydd Amser

Ar ôl addasu'r matrics cynaladwyedd "Yn Awr", trafododd y grwpiau yr heriau sydd wedi eu disgrifio ar gyfer eu Parth yn y Cynllun Gofodol. Yr oedd y rhain wedi eu dangos ar set o gardiau.



Anogwyd y cyfranogwyr i:

Wrthod cardiau yr oeddynt yn eu hystyried yn rhai anaddas

Newid cardiau er mwyn eu gwneud yn fwy addas

Ychwanegu cardiau newydd os oeddynt yn teimlo bod rhyw elfen hanfodol ar goll

Unwaith y cytunwyd ar set o gardiau, symudodd y grŵp ymlaen i gynllunio pa bryd y dylai'r gweithredoedd hyn ddigwyd a pha mor bwysig oeddynt. Cafodd hyn ei wneud ar ddalen siart troi a oedd wedi ei hargraffu ymlaen llaw, ac a oedd yn dangos:

Graddfa Amser (wedi ei rhannu'n fyr, canolig a hir)

Blaenoriaeth (wedi ei rhannu'n isel, canolig ac uchel)

Glynodd y cyfranogwyr y cardiau yn y celloedd priodol ar y matrics

Mae'r diagram yn dangos y ddalen A1 sydd yn dangos y matrics Cynaladwyedd, ac sydd yn darparu'r ffrân lle gosodir y cardiau.







Atborth

Amlygodd y grwpiau'r gweithredoedd a oedd yn cael blaenoriaeth uchel ganddynt. Cafodd y rhain eu cofnodi ar siart sy'n dangos nifer y grwpiau a roddodd gerdyn mewn cell matrics. Dangosir enghraifft isod:

Yr Her	Graddfa Amser			Blaenoriaeth			Blaenoriaeth Bwysedig
	Byr	Canolig	Hir	Uchel	Canolig	Isel	
Medrau	5			5			15
Cyflogaeth a Thwf	5			5			15
Yr Economi Wybodaeth	4	1		5			15
Integreiddio	4	1		3	2		14
Isadeiledd	3	2		4	1		13
Galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd	4	1		3	2		13
Cyfleoedd	2	3		3	2		13
Parthau Cyfagos	2	2	1	3	2		13
Safleoedd Canolog ar gyfer Cludiant	2	3		2	3		12
Canolfannau eraill	2	2	1	3	1	1	12
Cysylltiadau	1	3	1	2	3		12
Cysylltiadau ag Iwerddon	1	4		1	4		11
Yr Economi Ddiwylliannol	3	1		3	1		11
Amseroedd Teithio	1	2	2	1	3	1	10
Arbenigrwydd*	4			3	1		10
Perfformiad Ardal Drefol	3	1		2	2		10
Cludiant i Iwerddon	1	3	1	1	3	1	10
Datblygiad Tir Brown	1	1	3	2		3	9
Gwaith Cydweithrediadol:							
B) Canfod a Datblygu Peirianweithiau	2	2	1	4	1		14
C) Sicrhau Datblygiad	4	1		4	1		14
A) Bangor	3	2		3	2		13
E) Manteisio ar y buddion	1	4			5		10
D) Canfod cyfleoedd	1	3	1		2	3	7

Noder: Mae seren yn dynodi bod un neu ragor o'r grwpiau wedi dileu'r weithred o'r detholiad. Mae Blaenoriaeth Bwysedig yn cael ei phennu trwy luosi sgorau Blaenoriaeth Uchel â 3, a rhai Canolig â 2, ac yna adio ar draws yr holl flaenoriaethau.

Mae celloedd tywyll yn dangos rhyw gymaint o gonsensws; mae graddliwio golau yn dangos nad oedd ond ychydig o gonsensws.

Dodiadau Cardiau'r Grwpiau

Y Diagram Cynaladwyedd "Wedyn"

Cafodd ail fatrics, "Wedyn" (a oedd yn ymwneud â'r dyfodol), ei baratoi er mwyn dangos effaith gweithredu'r darpariaethau diwygiedig hyn o'r Cynllun. Cyfrannodd cyfranogwyr sylwadau ar y Cynllun yn ogystal, gan ddefnyddio siartiau troi. Rhoddodd llefaryddion dros y grwpiau gyflwyniad pum munud ar eu canfyddiadau.

At ei gilydd, cawsom fod y sesiynau hyn yn gweithio'n dda, gyda'r grwpiau'n ennill ymwybyddiaeth lawer manylach o'r Cynllun, o'r ardal, ac o weithredoedd dichonadwy. Fodd bynnag, teimlodd rhai grwpiau na chawsant ddigon o amser i bennu blaenoriaethau mewn modd cwbl ystyriol.

Themâu'r Drafodaeth ar Weithredu

Ar ôl cinio canol dydd, ail-ymgynulliodd y grwpiau er mwyn ystyried y prif flaenoriaethau a ddeilliodd o waith y bore. Cafodd themâu eu sefydlu ar sail y rhain, ac ystyriodd pob grŵp ddwy thema, gan drafod:

Pa weithredoedd sydd eu hangen er mwyn symud y thema yn ei blaen?

Pwy ddylai fod yn gysylltiedig â'r gwaith o'u symud yn eu blaenau?

Pa strwythurau presennol y dylid eu defnyddio, a pha strwythurau newydd y gallai fod angen eu creu?

Rhwystrau posibl a ffactorau eraill a allai effeithio ar weithrediad.

Cyflwynodd y grwpiau eu canfyddiadau ar *pro-forma* a oedd yn pwysleisio'r elfennau hyn ac yn gwneud cysondeb atborth yn bosibl. Llwyddodd y sesiynau bron i gyd i ddiffinio dulliau cydlynol o wireddu eu blaenoriaethau'n lleol. Y nifer o gyrff y byddai eu hangen er mwyn gwireddu rhai elfennau oedd y ffactor mwyaf nodedig yn ôl pob tebyg. Ychydig iawn o'r themâu allweddol (os yn wir yr oedd unrhyw rai) y gellid eu darparu gan un neu ddwy o asiantaethau yn unig, ac yr oedd hyn yn amlygu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r adroddiad manwl ar y digwyddiadau yn dangos, hefyd, mai un broblem oedd tuedd i lunio rhestrau hirion o'r 'cyrff arferol', gyda pheth anhawster o ran sicrhau unrhyw wir ymrwymiad i symud pynciau yn eu blaenau mewn rhai

achosion. At ei gilydd, fodd bynnag, cafwyd dymuniad i fod yn gysylltiedig â chyfleoedd newydd ar gyfer rhwydweithio a chydweithredu.

Adroddiadau

Y mae'r adroddiadau technegol manwl ar bob digwyddiad ar gael, ac maent yn rhestru:

trafodaethau thematig
pwyntiau cyffredinol a godwyd
atodiad sydd yn rhestru'r rhai a fu'n bresennol

At ei gilydd, mae'r rhain yn dangos bod strwythur y digwyddiadau'n galluogi'r cyfranogwyr i ennill gwybodaeth fanwl o'r Cynllun yn gyflym, ac i chwilio a chynghori sut y gellid ei symud yn ei flaen. Maent wedi darparu gwybodaeth werthfawr i Uned Cynllun Gofodol Cymru.

Argymhellion i'r dyfodol:

4 Mewn unrhyw ddigwyddiad yn y dyfodol, ceir budd o
- ***gynnal digwyddiad treialu***
- ***adolygu gwybodaeth a disgwyliadau'r cyfranogwyr***
- ***cynnal adolygiad ar ôl pob digwyddiad, a gwneud addasiadau er mwyn gwella effeithiolrwydd***

2.4 Wedi'r digwyddiad

Ers cynnal y diwgyddiadau, mae'r adroddiad yn ôl ynglŷn â phob un wedi ei newid yn grynodeb manwl, ac wedi ei osod ar y wefan yn:

http://walesspatialplan.typepad.com/news/

Yn ychwanegol at hynny, mae lluniau a gwybodaeth ategol arall wedi eu darparu.

Y bwriad yw gosod yr adroddiad hwn ar y wefan, yn ogystal â darparu copïau caled.

Argymhellion

5 Ar gyfer dyfodol y broses, yr ydym yn argymell:
- ***y dylid cynnal llif gwybodaeth ynglŷn ag ystyriaethau, digwyddiadau a chyfloedd cyfranogi yn y presennol ac i'r dyfodol***
- ***y dylid cyflwyno cydweithrediad pellach ar ffurf partneriaethau a rhwydweithio; yn ddelfrydol byddai hyn yn diwgydd yn electronig.***

3 Atborth ar gyfansoddiad y Cynllun

3.1 Rôl a phwrpas strategol

Un o fwriadau'r broses ymgynghori a thynnu trafodaeth oedd egluro natur a phwrpas y Cynllun. Dangosodd yr atborth o'r digwyddiadau fod hyn wedi ei gyflawni yn y mwyafrif llethol o achosion.

Cafwyd cefnogaeth eang i natur strategol gyffredinol a bwriad cyfannol Cynllun Gofodol Cymru, ond mynegwyd pryder yn aml ynglŷn â sut y byddai'n cael ei 'weithredu'. Cafwyd cefnogaeth i'r dull pedair thema a'r weledigaeth gyffredinol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglŷn â sut yr oedd y Cynllun yn cysyltu â meysydd polisi a strategaeth eraill, a sut y byddai'n effeithio ar wneud penderfyniadau a llunio cyllidebau ar lefel genedlaethol. Teimlwyd y gallai'r cynllun gael ei ddiraddio'n ddogfen weledigaeth aneffeithiol heb fodd i'w gweithredu, oni bai bod yna ryw "ddannedd" a fyddai'n sicrhau bod yna bwysau i'w wireddu.

Yn neilltuol, mynegwyd pryder ynglŷn â sut y gallai'r Cynllun effeithio ar bolisi a phenderfyniadau ar wahanol lefelau Llwyodraeth Cynulliad Cymru ei hun ("a oedd yr holl weinidogion a gweision sifil wedi ymrwymo iddo?"), a dymuniad gan lawer iddo fod yn fwy eglur yn ei fynegiant gofodol o fuddsoddi ar isadeiledd a datblygu newydd.

I grynhoi: yr oedd yna ddymuniad iddo wneud y penderfyniadau cywir dros Gymru gyfan, ac iddo feithrin y penderfyniadau priodol ymysg partneriaid strategol ar y lefelau mwy lleol, rhanbarthol neu barthol. Teimlwyd ei bod yn bwysig bod y Cynllun yn gwneud hyn trwy ddarparu fframwaith gweithredol, yn hytrach na chyfarwyddo 'o'r pen i'r gwaelod', a'i fod yn deillio ar ragor o weithio a darparu mewn partneriaeth ar lefel leol, er enghraifft yn Ne-Ddwyrain Cymru.

Yr oedd rhai yn teimlo y dylai fod gan y Cynllun sail statudol gryfach yng ngweithgarwch cynllunio gwlad a thref awdurdodau lleol — yn hytrach na bod yn *ystyriaeth berthnasol* yn unig. Efallai y bydd hyn yn anodd i'w chysoni'n llawn, o gofio'r maes cyfrifoldeb llawer ehangach (er enghraifft yn y sectorau iechyd, cymdeithasol a hyfforddiant) y mae'r Cynllun yn ceisio'i gwmpasu.

Honiad arall a wnaed mewn sawl diwgyddaid oedd nad oedd naill ai'r Cynllun na'r pwyntiau gweithredu a drafodwyd yn y digwyddiadau ymgynghori yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr amgylchedd, er mai datblygu cynaladwy oedd y cysyniad ysgogol. Teimlwyd bod yna bwyslais ar ddatblygu economaidd a lles cymdeithasol, er y dylid nodi y gellid dadlau bod sefydliadau busnes a chyrff gwirfoddol wedi eu tan-gynrychioli mewn rhai o'r digwyddiadau. Nid yw'r awgrym hwn o ogwydd yn cael ei lwyr gadarnhau gan y set lawn o gasgliadau, lle cafodd pwnc yr amgylchedd ei wyntyllu'n helaeth. Fodd bynnag, gellid ei fynegi'n gryfach yn fersiwn nesaf y Cynllun.

Un feirniadaeth o fersiwn drafft cyfredol y Cynllun a glywyd drosodd a thro oedd y gogwydd yr oedd rhai cyfranogwyr yn ei synhwyro tuag at *ddisgrifio'r* sefylla gyfredol (gan dynnu'n helaeth a ddata'r Cyfrifiad a data eraill), yn hytrach na *phennu* cyfeiriad gofodol i'r dyfodol ar sail dewisiadau strategol. Cyfrannodd yr holl sesiynau gweithdy at y broses o feddwl sut i symud hyn yn ei flaen ar gyfer y drafft nesaf.

Argymhellion

6 Yr ydym yn argymell y dylid (wrth i'r Cynllun Gofodol symud yn ei flaen i'r drafft nesaf):

- ***gwneud mwy o waith ar sut y gellid ei wiethredu — er enghraifft, p'un ai trwy bartneriaethau lleol ynteu drwy weithgarwch uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru — a chyfleu hyn yn unswydd yn y fersiwn nesaf***
- ***rhoi arweiniad clir ynglŷn â'r berthynas rhwng y Cynllun a chynlluniau statudol eraill, yn ogystal â Strategaethau Cymunedol — gan nodi pan fô'r rhain yn gyfeiriol, yn ymgynghorol, ac yn y blaen***
- ***rhoi arwydd clir o sut y gallai cyfansoddiad y Cynllun ddylanwadu ar ddyraniadau cyllideb a pholisi cenedlaethol, ac mewn perthynas â pha ystyriaethau a graddfeydd amser***
- ***rhoi mwy o bwyslais ar y dewisiadau gofodol strategol allweddol — a hefyd, yn ddelfrydol, ar benderfyniadau — ar gyfer symud Cymru yn ei blaen yn unol â'r weledigaeth gynaladwy sydd wedi ei chyflwyno yn y Cynllun***
- ***mynegi'n gryfach rôl yr amgylchedd mewn perthynas â'r camau y bwriedir eu cymryd yn y dyfodol***

3.2 Rôl y parthau

Yr oedd natur a chynnwys penodol y mathau o barth a gynigiwyd yn codi dadl weddol gyson ynglŷn â'u haddasrwydd — ar gyfer y Cynllun yn gyffreinol, ond hefyd ar gyfer yr ardaloedd lleol penodol.

Er y cafwyd cefnogaeth i'r egwyddor o edrych ar ardaloedd lleol, a cheisio adeiladu partneriaethau strategol er mwyn sicrhau gwasanaethau ac ansawdd bywyd ar draws ffiniau awdurdodau lleol a sectorau gwasanaeth, teimlwyd bod nifer o wendidau. Yr oedd y rhain yn cynnwys:

y ffaith fod y parthau'n tueddu i fod yn diriogaethol fewndröedig, o ran eu darn hwy eu hunain o Gymru ac o ran cysylltiadau rhyngwladol. Teimlwyd y dylent fabwysiadu cysylltiadau â Lloegr, Iwerddon a chyfandir Ewrop yn fwy agored.

diffyg ystyriaeth i rôl wirioneddol a dichonol ardaloedd glan môr fel rhan o'r parthau — boed honno'n rôl mewn perthynas â'r amgylchedd neu fasnach neu adnoddau ynni.

beirniadaeth i'r perwyl nad oedd y teipolegau lliwiedig, er efallai'n ddiddorol ar gyfer canfod cysylltiadau a chyffelybiaethau, yn llwyddo fel arf cyfarwyddol, oherwydd eu bod yn tynnu sylw oddi wrth nodweddion unigryw pob ardal, gan ganolbwyntio dadlau di-fudd ar y cwestiwn a oedd unrhyw debygrwydd rhyngddynt mewn gwirionedd. Nid oedd hyn i'w weld o angenrheidrwydd yn gymorth i gynllunio gofodol yn y dyfodol.

Er gwaethaf y beirniadaethau hyn, yr oeddem yn teimlo bod y parthau teipolegol hyn — gyda'u gweledigaeth eang a'u hawgrymiadau ar gyfer prosiectau a rhaglenni — yn arf hynod o ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth, gan alluogi'r cyfranogwyr i archwilio'r Cynllun drafft mewn modd gofodol ar lefel Cymru gyfan ac ar lefel parth.

Fodd bynnag, a'r rhain bellach wedi chwarae eu rôl, yr ydym o'r farn fod angen eu hadolygu a'u diweddaru, gyda phwyslais ar barthau gofodol gweithrediadol i'r dyfodol. Mewn gwirionedd, y mae'n bosibl y bydd yn rhaid i rai ohonynt orgyffwrdd er mwyn cymryd realiti gweithrediadol i ystyriaeth ac osgoi llawer o'r anghydfodau ynglŷn â 'ffiniau' a gafodd eu hennyn gan y fersiynau cynharach.

Argymhellion:

7 Yr ydym yn argymell y dylid adolygu ac ailwampio'r cysyniadau parth er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***cysylltiadau rhyngwladol***
- ***ffactorau arforol***
- ***dileu'r teipolegau lliwiedig cysylltiol (gweler hefyd isod, adran 3.3)***
- ***diffiniadau newydd o barthau fel parthau gweithrediadol sydd weithiau'n gorgyffwrdd***

3.3 Sylwadau ac argymhellion allweddol fesul ardal

3.3.1 Bae Ceredigion

Deilliodd y drafodaeth ar nodweddion yr ardal ar ryw gymaint o gonsensws ynglŷn â'r angen i amrywio'r sylfaen economaidd y tu hwnt i'r sector cyhoeddus a'r sector addysg; cydnabyddiaeth o ansawdd uchel yr amgylchedd; y posibiliadau am ragor o 'dwristiaeth o ansawdd'; a'r nod bwysig o gynnal a chryfhau'r diwylliant Cymraeg.

Teimlwyd bod cynnwys yr ardal mewn parth pinc yn y Cynllun drafft yn or-symylu, oherwydd nad oedd yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng ardaloed y gogledd a'r de yn rhan orllewinol y parth, nac yn cydnabod y gwahaniaethau sylweddol rhwng yr ardal hon ac ardal dwyrain Powys, yn enwedig o ran hygyrchedd — gwahaniaethau a oedd yn awgrymu na ddylai'r un deipoleg gael ei phriodoli i'r ddwy ardal.

Deilliodd y drafodaeth ar gardiau cynigion y Cynllun, a sut i'w blaenoriaethau, ar syniadau ar gyfer symud gweithredu ymlaen mewn perthynas â:

- gwasanaethau cyhoeddus
- datblygiad diwylliannol
- cynnal cyflenwad o dai fforddiadwy
- datblygu economaidd
- yr economi wybodaeth
- isadeiledd a chysylltedd

Cynigiwyd y dylid gweithredu ymhellach er mwyn cryfhau rôl a safle Aberystwyth yng Nghymru gyfan, o gofio ei phwysigrwydd i'r rhan hon o Gymru.

Argymhellion ar gyfer Bae Ceredigion:

8 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r ardal hon er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***y berthynas gyda rhannau eraill o ganolbarth Cymru***
- ***yr angen am amrywiad economaidd y tu hwnt i'r sector cyhoeddus***
- ***rôl a photensial yr elfen arforol***

3.3.2 Dwyrain Powys

Er i hwn fod yn un o'r digwyddiadau llai o ran maint, yr oedd serch hynny yn un amrywiol a chreadigol, oherwydd amrediad y cyfranogwyr a'u parodrwydd i drafod amrediad o ystyriaethau mewn modd adeiladol a chyfunol.

Cafwyd nifer o heriau i ddynodiad yr ardal, a oedd wedi ei dynodi'n barth pinc yn y cynllun, gan awgrymu bod ganddi nodweddion tebyg i rai Bae Ceredigion. Ni chafodd y deipoleg Parth Pinc hon ei derbyn yn gyffredinol. Er enghraifft, tra bod Aberystwyth yn cael ei hystyried yn ganolfan ranbarthol, ac yn gartref i'r economi wybodaeth, mae nodweddir Dwyrain Powys gan fwy o ystyriaethau traws-ffiniol, ac mae'r cyfleoedd addysgol yno'n fwy cyfyngedig.

Cafwyd trafodaeth fywiog ar y matrics cynaladwydd a'r nodweddion parthol, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau poblogaeth a phatrymau gwaith. Yr oedd pobl ifainc yn ymadael, tra bod eraill yn symud i'r ardal, yn aml ar draws ffiniau, er mwyn manteisio ar brisiau eiddo is. Er enghraifft, gallai pobl weithio gartref ar

nifer o ddiwrnodau a theithio i'r dref yn achlysrol. Y mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau masnachol yn rhai rhwng dwyrain a gorllewin, ac at ei gilydd mae perthynas draws-ffiniol felly'n bwysig.

Canolbwyntiodd y trafodaethau, a'r blaenoriaethu o waith bwriedig, ar:

- yr angen am dai fforddiadwy
- cadw a/neu ddenu pobl fedrus ar gyfer twristiaeth a diwydiannau eraill
- mynd i'r afael â'r posibilrwydd y byddai hunaniaeth Gymreig yn cael ei gwanhau
- ychwanegu gwerth at gynhyrchion sydd ar hyn o bryd yn mynd dros y ffin i Loegr
- datblygu economaidd, yn enwedig systemau technoleg uwch a chefnogaeth i'r economi wybodaeth

Yn y trafodaethau ar weithrediad, nodwyd yr angen am weithredu cydlynol gan asiantaethau sydd yn cymryd rhan mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Ymddangosai fod y grwpio hwn yn profi bod yna sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu cydweithrediadol, o bosib trwy Bartneriaeth Canolbarth Cymru.

Argymhellion ar gyfer Dwyrain Powys:

9 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r ardal hon er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***y berthynas, o ran aildrefnu parth, â rhannau eraill o Ganolbarth Cymru (y categori pinc a'r categori gwyrdd fel ei gilydd)***
- ***yr angen am amrywiad economaidd y tu hwnt i amaeth, i sectorau megis twristiaeth***
- ***y rôl allweddol a'r berthynas weithrediadol draws-ffiniol â Lloegr, gan gynnwys gweithrediad effeithiol marchnadoedd***

3.3.3 Gogledd-Ddwyrain Cymru

Un thema lywodraethol yn y drafodaeth ar barthu oedd ystyriaethau traws-ffiniol megis yr angen am gysylltiadau cludiant cyhoeddus mwy effeithiol, i'r graddau bod rhai cyfranogwyr yn awgrymu y dylai'r ardal, yn realistig, ymestyn ymhellach i mewn i Loegr. Yr oedd yna wrth-effaith cysylltiedig a oedd yn deillio o fewnlifiad o bobl a oedd yn prynu tai, gan effeithio ar y 'cydbwysedd diwylliannol'.

Ymwrthodwyd yn gryf â'r gosodiad bod gan barth y Gogledd-Ddwyrain sylfaen economaidd amrywiol — y mae'n dal i gael ei ddylanwadu'n gryf gan y sector gweithgynhyrchu a'r sector cyhoeddus. Mae'r parth yn ddiffygiol o dwristiaeth

hefyd, ac y mae'n cael ei ystyried yn arhosfa ar y ffordd i Ogledd-Orllewin Cymru, yn hytrach nag yn gyrchfan ynddo'i hun.

Yr oedd y diffyg amrywiaeth economaidd, a'r strwythur cymunedol newidiol, yn cael eu hadlewyrchu yn y modd yr oedd y matrics cynaladwyedd 'ble'r ydym yn awr' heriol yn cael ei fynegi. Cyfeiriwyd at fodolaeth ffyniant ochr yn ochr ag amddifadedd, twristiaeth o werth isel, dibyniaeth ar fewnfuddsoddiad ac amaeth yn y perfeddwlad, a diffyg cyrhaeddiad addysgol.

Yn y drafodaeth a gafodd i hysgogi gan gardiau cynigion y Cynllun, teimlai'r cyfranogwyr nad oedd ffactorau a chamau amgylcheddol yn nodweddion digon cryf o'r Cynllun. Gallai amddiffyn rhag llifogydd, trin carthion a thrin gwastraff i gyd gyfyngu ar ddatblygu i'r dyfodol.

Ystyriwyd bod hunaniaeth ddiwylliannol gref — datblygu 'Cymreictod' heb ddieithrio'r Saeson — yn bwysig, ynghyd ag ymagwedd newydd at ddatblygu economaidd a fyddai'n golygu gwneud cysylltiadau cadarnhaol gyda Gogledd-Orllewin Lloegr.

Dylai cynllunio ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ymgorffori ystyriaethau megis:

- mynediad/isadeiledd cludiant
- iechyd a diogelwch cymunedol
- amddifadedd
- medrau/addysg
- tai
- safleoedd tir brown

Yn y sesiwn hwn, nodwyd bod gweithredu, er ei fod yn ddibynnol ar fuddsoddi, hefyd yn ddibynnol mewn llawer o achosion ar newid agweddau, a bod rhai mathau o weithredu'n gofyn safbwynt traws-ffiniol. O'r herwydd, nodwyd bod arweiniad wrth symud mentrau yn eu blaenau yn brif thema.

Argymhellion ar gyfer Gogledd-Ddwyrain Cymru:

10 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r ardal er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***y rôl allweddol a'r berthynas weithrediadol draws-ffiniol â Gogledd-Orllewin Lloegr, gan gynnwys gweithrediad effeithiol cymudo a marchnadoedd tai, yn ogystal â gweithgarwch economaidd***
- ***yr angen am amrywiad economaidd y tu hwnt i'r craidd traddodiadol, i sectorau megis technoleg a thwristiaeth***
- ***yr angen am fynd i'r afael â medrau lleol a materion amddifadedd***

3.3.4 Menai

Teimlwyd nad oedd yr ardal wedi ei diffinio'n ddigon manwl, ac na wnaed cyfiawnder ag amrywiaeth y gwahaniaethau daearyddol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal; er enghraifft, nid oedd digon o sylw wedi ei dalu i gyfran uchel y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac i ba raddau yr oedd hyn yn sail i ddiwylliant lleol; dylid cynnwys yr amgylchedd alltraeth; nid oedd digon o gydnabyddiaeth o dwristiaeth ac amaeth. Tynnodd rhai grwpiau sylw arbennig at bwysigrwydd trefi, a'r gwahaniaethau rhyngddynt, a phwysigrwydd gwell cysylltiadau cludiant rhwng Gogledd a De er mwyn mynd i'r afael â'r pellter daearyddol ac 'emosiynol' o'r brifddinas. Y teimlad oedd nad oedd yr ardal, fel yr oedd wedi ei diffinio ar hyn o bryd, yn 'hollol iawn'.

Bu'r matrics cynaladwyedd yn gymorth i ganolbwyntio trafodaeth ar y materion hyn ac ar faterion eraill, yn enwedig y posibiliadau o dyndra rhwng ynni adnewyddadwy (ffermydd gwynt), tirwedd a thwristiaeth; pwysigrwydd a breuder y dwylliant Cynraeg; pocedi o amddifadedd; dibyniaeth ar ddefnyddio ceir er mwyn cael hygyrchedd trafnidiol llawn (er y cydnabuwyd bod gwasanaethau cyhoeddus yn dda at ei gilydd).

Yn y trafodaethau grŵp ar gardiau cynigion y Cynllun, rhoddwyd y flaenoriaeth uchaf i fedrau, yr economi wybodaeth, cyflogaeth a thwf. Dim ond ychydig is oedd y flaenoriaeth a roddwyd i brosiectau a oedd yn ymwneud ag isadeiledd, cysylltiadau mewnol a chysylltiadau gyda pharthau cyfagos. Ystyriwyd bod amcanion a oedd yn ymwneud â threfi a datblygu safleoedd tir brown yn llai pwysig, ond serch hynny buont yn destun cynigion dychmygus ac adeiladol.

Yr oedd syniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- arbenigrwydd
- rôl y canolfannau allweddol
- amddifadedd
- cynyddu cyflogaeth
- cludiant ac isadeiledd
- tai fforddiadwy

Yr oedd y gweithdy hwn yn un neilltuol o arbennig ohewydd y gynrychiolaeth gref o siaradwyr Cymraeg, a'r tyndrâu a oedd yn codi rhwng yr angen i gynnal yr hunaniaeth a'r amgylchedd arbennig hyn tra'n ymaddasu i rai o'r pwysau allanol anochel, a allai arwain at bolareiddio cymdeithasol pe baent yn cael eu trin yn y modd anghywir. Efallai mai'r syniad o rwydwaith o aneddiadau ar hyd Afon Menai, fel canolbwynt ar gyfer twf a gwasanaethau, oedd y syniad gofodol mwyaf arbennig.

Argymhellion ar gyfer Menai

11 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r ardal hon er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***natur arbennig y parth hwn o safbwynt ffisegol ac o safbwynt diwylliannol***
- ***yr angen am amrywiad y tu hwnt i amaeth a gweithgarwch traddodiadol, i sectorau megis technoleg a thwristiaeth gynaladwy***
- ***y cyfle i ddatblygu rhwydwaith cyflenwol a chyfannol o aneddiadau ar hyd dwy lan Afon Menai er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer y perfeddwlad ehangach***

3.3.5 Cefn Gwlad

Cafwyd ymdeimlad, yn ystod y sesiwn hwn (a rhai eraill), fod y Parth Gwyrdd yn ymddangos yn ddim ond yr hyn a oedd 'yn weddill' ar ôl ffurfio'r parthau eraill; teimlai'r cyfranogwyr nad oedd ganddo ei hunaniaeth gadarnhaol ei hun, ar wahân i fod yn wledig ac yn bellennig. Yn ychwanegol at hynny, teimlwyd nad oedd 'gofodol' yn ddisgrifiad da o'r rhan fwyaf o'r Cynllun, sydd yn ymwneud yn bennaf ag integreiddio materion cymdeithasol a materion polisi economaidd.

Gwnaed y sylw, ynglŷn â'r parth hwn, fod ystadegau poblogaeth, o gynnwys myfyrwyr, yn rhoi darlun camarweiniol a oedd yn cuddio ffeithiau allfudo; nad yw nodweddion gwylltir, amgylchedd hanesyddol ac adnoddau naturiol yn cael eu pwysleisio'n ddigonol, ac y dylid gwneud llawer mwy ohonynt; a bod ynni adnewyddol yn adnodd allweddol ar gyfer yr ardal.

Dadlennodd y drafodaeth bryderon bod yr amgylchedd a chymunedau gwledig yn agored i niwed — er gwaethaf yr argraff o gryfder ac atyniad. Ystyrir bod ffyniant economaidd yn fregus oherwydd cyfleoedd cyfyngedig a'r ffaith nad oes ond un prif gyflogwr. O'i chymharu â rhannau eraill o'r wlad, y mae mynediad ffisegol a thrwy fand eang yn wael, gan arwain at anhawster i gael at wasanaethau. Ochr gadarnhaol y 'pellenigrwydd' hwn yw cyfraddau isel o droseddu, ac atyniad i dwristiaid sy'n chwilio am wyliau tawel.

Ystyrir felly fod stiwardiaeth amgylcheddol yn bwysig iawn yn y rhan hon o'r wlad. Yr oedd y camau a awgrymwyd ar gyfer cryfhau cymunedau yn cynnwys:

- tai fforddiadwy
- darpariaeth addysgol
- cadw a denu pobl ifainc
- mynediad i fand eang a datblygiadau TGCh eraill, fel modd i helpu i gynyddu ffyniant

At ei gilydd, yr oedd y prif bwyslais ar adeiladu ar gryfderau lleol, gan gynnwys adnoddau naturiol, ynni adnewyddol, amaeth, a'r dull o fyw. Pwysleisiwyd pwysigrwydd trefi bywiog, cynaladwy a oedd yn gallu cynnal datblygiad economaidd brodorol ar gyfer yr ardal ehangach.

Cafodd y cyfuniad o ystyriaethau a thyndrâu rhwng yr amgylchedd, dŵr ac ynni i gyd eu pwysleisio fel materion a oedd yn gofyn polisi strategol blaengar ar gyfer yr ardal.

Argymhellion ar gyfer Cefn Gwlad:

12 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r parth hwn er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***nodweddion arbennig y parth, gan gynnwys yr amgylchedd a'r dosbarthaid cymharol denau o boblogaeth***
- ***yr angen i ddiffinio rôl a phwrpas cadarnhaol yn hytrach na gweddilliol yn y Cynllun ehangach***
- ***yr angen am amrywiad economaidd a chymdeithasol y tu hwnt i amaeth, i sectorau megis busnesau bychain a thwristiaeth***
- ***yr angen am strategaeth a fydd yn mynd i'r afael â rôl dŵr fel adnodd sydd â chryn botensial economaidd ac amgylcheddol***
- ***pwysigrwydd trefi bywiog, cynaladwy sy'n gallu cynnal datblygiad economaidd brodorol ar gyfer yr ardal ehangach***

3.3.6 Bae Abertawe

Yr oedd y drafodaeth ar yr ardal hon yn amlygu ystyriaethau megis y newid ym mhwysigrwydd y porthladd mewn perthynas â chludiant awyr a ffyrdd; pwysigrwydd peidio â diffinio hunaniaeth ddiwylliannol yn ôl siarad Cymraeg (er bod hyn yn bwysig); y tyndra rhwng coridor cymharol ffyniannus yr M4 a'r cymoedd tlotach; agosrwydd ffyniant a thlodi; a'r posibiliadau helaeth ar gyfer adfywio economaidd, gan gynnwys twf yr economi dwristiaeth. Cafwyd rhyw gymaint o drafod, hefyd, ynglŷn â pherthynas yr ardal â De-Ddwyrain Cymru a Sir Benfro.

Yr oedd cymhlethdod yr ystyriaethiau yn yr ardal hon yn cael ei adlewyrchu yn y trafodaethau, gyda chymysgedd o faterion a chyferbyniadau cadarnhaol a negyddol yn cael ei nodi. Er enghraifft, cafodd amrywiaeth eang y mathau o amgylchedd a'u nodweddion ei phwysleisio — nid oes un math safonol nac ateb safonol o ran polisi.

Awgrymodd cyfranogwyr fod angen elfennau a oedd yn canolbwyntio mwy ar bobl, yn y Cynllun, er mwyn adlewyrchu ystyriaethau iechyd er enghraifft. Blaenoriaethodd y grwpiau y themâu canlynol ar gyfer gweithredu:

- yr economi wybodaeth
- rôl canolfannau
- arbenigrwydd lleol
- arweiniad ym Mae Abertawe
- isadeiledd a chludiant
- datblygu tir brown

Canfuwyd amrediad o gamau penodol, ac asiantaethau a ddylai gymryd rhan, ar gyfer pob un o'r meysydd gweithredu. O gofio amrediad a chymhlethdod y gweithgareddau, nid oedd yn syndod bod arweinyddiaeth, gweithio effeithiol mewn partneriaeth, gwell cyfathrebu, a datrys gwrthdrawiadau yn themâu a gododd dro ar ôl tro. Mynegodd ychydig o'r rhai a gymerodd ran ofn tra-argwlyddiaeth gan Abertawe.

Argymhellion ar gyfer Bae Abertawe:

13 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r ardal hon er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***y rolau cymhleth sy'n gorgyffwrdd â'r ardaloedd cyfagos, o bosib trwy gydnabod y gorgyffwrdd hwn yn agored***
- ***yr angen i fynd i'r afael â nodweddion amgylcheddol cymysg yr ardal wrth weithredu polisi yn y dyfodol***
- ***yr angen i wahaniaethu, mewn perthynas â'r ardal, rhwng y mathau a'r cymaryddion eraill sydd wedi eu nodi***
- ***rhoi blaenoriaeth i adfywio economaidd ynghyd â lleihau polareiddio cymdeithasol mewn ardaloedd cyfagos***

3.3.7 Hafan Sir Benfro

Deilliodd trafodaeth ar yr ardal hon ar sylwadau i'r perwyl bod yna wahanol hunaniaethau Saesneg/Cymraeg yn yr ardal; bod yna broblem allfudo gan bobl ifainc; bod angen mwy o bwyslais ar natur unigryw yr ardal yn y Cynllun, gan gynnwys manteisio ar y potensial i adeiladu twristiaeth gynaladwy. Nodwyd ystyriaethau arforol ac arfordirol hefyd fel rhai a oedd yn bwysig ond yn cael sylw annigonol.

Yr oedd sylwadau'r cyfranogwyr yn awgrymu bod cyflwr yr amgylchedd, a oedd o ansawdd uchel, yn gymharol gadarn; bod hunaniaeth ac ysbryd cymunedol yn uchel; ond y gallai cynaladwyedd hirdymor gael ei fygwth gan allfudiad pobl ifainc. Yr oedd yn anodd cyffredinoli am yr ardal gyfan o ran ffyniant economaidd; ac yr oedd yn anodd ymdrin â phroblemau mynediad ffisegol oherwydd diffyg màs critigol o ddefnyddwyr. Dylid ystyried y gallu i gael at fand eang yn gysylltwr pwysig.

Yr oedd y syniadau ar gyfer gweithredu i'r dyfodol yn canolbwyntio ar:

- datblygu tir brown er mwyn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd;
- pwysleisio arbenigrwydd fel allwedd i ddatblygu twristiaeth a chymunedau cynaladwy
- cymysgedd o weithredoedd ar gyfer cynyddu ffyniant, gan gynnwys datblygu tir brown, twristiaeth, band eang a TGCh — gan adeiladu'n gyffredinol ar gryfderau lleol
- yr angen am weithredu i gryfhau canolfannau a chysylltiadau cludiant mewn sawl cyfeiriad
- y posibilrwydd y gallai Coleg Sir Benfro chwarae rôl bwysig o ran datblygu'r economi wybodaeth a gweithredu fel catalydd ar gyfer cydweithredu gydag eraill

Cafodd dwy thema eu blaenoriaethu ar gyfer eu symud yn eu blaenau: datblygu economaidd ac isadeiledd. Cynhyrchodd grwpiau amrediad eang o syniadau ar gyfer camau ymarferol ynglŷn â'r rhain, ynghyd ag asianaethau cysylltiedig a buddiannau allweddol. Cafwyd cydbwysedd da rhwng uchelgais a realaeth, gyda chydnabyddiaeth fod llawer o'r chwaraewyr allweddol eisoes yn ceisio gweithredu ar y cyd mewn perthynas â'r themâu allweddol, ond bod angen gwneud mwy.

Argymhellion ar gyfer Hafan Sir Benfro:

14 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r ardal hon er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***yr hunaniaeth arbennig, y pellenigrwydd cymharol, a'r hunaniaeth ddiwylliannol gymysg***
- ***gwella cysylltedd mewn gwahanol ffyrdd er mwyn lleihau teimlad pobl bod yr ardal yn ymylol***
- ***manteisio ar nodweddion unigryw er mwyn creu rôl gryfach mewn twristiaeth gynaladwy***

3.3.8 De-Ddwyrain Cymru

Deilliodd natur eang ac amrywiol yr ardal hon, yn ogystal â'r amrediad o fuddiannau a oedd yn bresennol yn y digwyddiad, ar set amrywiol o gwestiynau a sylwadau, gan gynnwys:

- Cynnig y dylid mabwysiadu ymagwedd lluosganolog, tra'n cydnabod rôl ganolog Caerdydd
- Galwad am ddarlunio manylach o'r gwahaniaethau yn yr ardal, a fframwaith rhesymu clir ar gyfer yr ardal fwriedig.
- Yr angen am roi mwy o bwyslais ar elfennau a buddiannau amgylcheddol — yn enwedig y rhai yn y sector gwirfoddol.

- Dadl gan rai pobl, ar sail y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd arfordirol a'r cymoedd, y dylid adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn trwy greu dwy ardal. Cydnabu eraill fod y parthau presennol yn adlewyrchu realiti cymdeithasol ond nid realiti amgylcheddol.

Yn ôl un grŵp, dylai'r amgylchedd gael ei gyflwyno'n fwy cadarn fel caffaeliad gwerthfawr ac nid fel cyfyngiad ar ddatblygu yn unig. Yn ogystal â'r amgylchedd naturiol uchel ei ansawdd, yr oedd yna amgylchedd hanesyddol a oedd yn teilyngu sylw.

Daeth ystyriaethau cymdeithasol amrywiaeth diwylliannol ac ethnig, ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, i'r amlwg i raddau mwy nag mewn ardaloedd eraill, ynghyd â'r angen i flaenoriaethu datblygiad medrau ac addysg gydol oes. Ar raddfa strategol, ymchwiliodd y grwpiau i'r berthynas a'r cysylltiadau oddi mewn i'r ardal a gyda Bryste er enghraifft.

Fodd bynnag, yr oedd llawer o'r grwpiau'n ei chael yn anodd i gymhwyso barn i'r ardal gyfan, a phwysleisiwyd yr angen i gydnabod amrywiadau lleol.

Yr oedd y themâu mewn perthynas â gweithredu yn amrywio o:

ddatblygu isadeiledd ar gyfer economi gystadleuol a chynaladwy; a

lleihau'r bwlch o ran ffyniant rhwng y cymoedd a'r arfordir; i

meithrin cydweithrediad ac integreiddio cyfranogion allanol.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer gweithredu yn fwy manwl, a nodi pa bobl neu gyrff a oedd i'w symud yn eu blaen, un thema a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro oedd yr angen am gydlynu a gweithio cydweithrediadol ymysg cyrff ac awdurdodau niferus yr ardal hon.

Argymhellion ar gyfer De-Ddwyrain Cymru:

15 Yr ydym yn argymell y dylid diweddaru'r ardal hon er mwyn cymryd i ystyriaeth:

- ***yr angen i fynegi'r gydberthyas weithrediadol gymhleth rhwng yr arfordir a'r cymoedd mewn modd sy'n cymryd i ystyriaeth ryngddibyniaeth ranbarthol a hunaniaethau gwahaniaethol lleol***
- ***yr angen i'r achos dros weithrediad De-Ddwyrain Cymru fel un ardal gael ei ddadlau ar y lefel gywir (e.e. ar lefel Ewrop neu'r Deyrnas Gyfunol)***
- ***yr angen i fynd i'r afael â nodweddion a chyfleoedd amgylcheddol pwysig yr ardal hon mewn gweithrediad polisi yn y dyfodol***
- ***blaenoriaeth adfywio economaidd mewn cysylltiad â lleihau polareiddio cymdeithasol mewn ardaloedd cyfagos***
- ***canfod perianweithiau priodol ar gyfer symud yr ardal yn ei blaen yn unol ag agenda gydweithrediadol a llorweddol***

3.4 Sylwadau allweddol fesul thema/sector ar draws Cymru

3.4.1 Yr Amgylchedd

Cydnabuwyd bod yr amgylchedd yn elfen bwysig yn y Cynllun Gofodol sut bynnag. Cafwyd cefnogaeth eang i'r syniad a fynegir yn y Cynllun y dylid ystyried yr amgylchedd yn adnodd ac yn gyfle positif, eithr gydag ambell gafeat. Yr oedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar effaith amgylcheddol ddichonol ynni adnewyddadwy — er enghraifft ffermydd gwynt — a oedd yn fater tringar mewn lleoedd megis ardal arfodirol Menai a chefn gwlad Canolbarth Cymru. Mewn ardaloedd eraill, megis y Gogledd-Ddwyrain, tynnwyd dylw at yr angen i ddarparu isadeiledd digonol er mwyn diwallu anghenion cyfredol a dyfodol o ran trin gwastyraff, carthion a dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Ystyriwyd bod gwneud hyn yn ôl dulliau hirdymor na fyddai'n niweidio'r amgylchedd yn her fawr, er enghraifft yn y De-Ddwyrain ac ym Mae Abertawe.

Er bod tuedd i feddwl yn fawr o'r ardaloedd gwledig, ac o'u potensial am dwristiaeth gynaladwy, ystyrid bod eu hamgylcheddau'n weddol fregus, a bod arnynt angen rheolaeth a gofal, gyda chefnogaeth y sector amgylcheddol arbenigol. Diddorol oedd sylwi bod yr amgylchedd yn dod i'r amlwg fel thema allweddol ym Mae Abertawe a De-Ddwyrain Cymru, lle'r ystyrid bod gan amgylcheddau o ansawdd is, neu amgylcheddau o waith dyn a oedd wedi eu niweidio, rôl weithiau yn y gwaith o ail-lunio aneddiadau a'u cyfleoedd economaidd a chymdeithasol. Teimlwyd y gallai grwpiau lleol weithio gyda'r prif sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) i weithredu hyn.

At ei gilydd, un thema a redodd drwy'r holl sesiynau oedd fod yna bosibilrwydd o roi pwyslais annigonol ar yr amcanion amgylcheddol, yn y gweithredoedd a gynigir ar gyfer gweithredu'r Cynllun, ac na ddylid colli golwg ar bwysigrwydd yr amgylchedd. Yr oedd hyn yn cynnwys:

- pwysleisio pwysigrwydd yr amgylchedd arforol — nid y rhimyn arfordirol cul yn unig, ond ymhellach allan i'r môr hefyd, a chan gynnwys y dyfrffyrdd mewndirol yn ogystal
- dal a defnyddio mewnbwn positif cyflawn y gwahanol gyfranogion cymunedol a chyfranogion corfforaethol (megis Dŵr Cymru a Bwrdd Dyffrffyrdd Prydain) o ran cyfrannu at atebion amgylcheddol dychmygus sy'n creu buddion cymdeithasol ac economaidd

Argymhellion ar gyfer yr Almylchedd:

16 Yr ydym yn argymell:

- ***y dylid cadw ac atgyfnerthu'r elfen hon fel rhan allweddol o'r Cynllun Gofodol***
- ***y dylid gwneud cyfeiriad cadarn at bwyso'r defnydd o ynni adnewyddadwy ac isadeiledd amgylcheddol arall (megis amddiffyniadau rhag llifogydd) yn erbyn yr angen i liniaru eu heffaith ar yr amgylchedd***
- ***y dylid rhoi pwyslais ar reoli'r amgylchedd yn gadarnhaol a'i wella (nid ei amddiffyn yn unig), gan ddefnyddio partneriaeth rhwng cyfranogion corfforaethol a chymunedol***
- ***y dylai'r ystyriaeth a roddir i'r amgylchedd gael ei hymestyn i gynnwys adnoddau arforol a dyfrffyrdd mewndirol, gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â rôl dŵr fel adnodd sydd â photensial economaidd ac amgylcheddol***

3.4.2 Yr Economi

Y mae natur a pherfformiad yr economi'n amrywio'n aruthrol ar draws Cymru, a dim ond ychydig o themâu llorweddol syml a ddaeth i'r amlwg. Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod mesurau datblygu economaidd wedi eu blaenoriaethu o flaen themâu eraill yn y rhan fwyaf o'r gweithdai, a chafwyd cydnabyddiaeth eang fod yr amcan o gynyddu ac ymledu ffyniant yn un pwysig. Mewn llawer o achosion, yr oedd yn rhaid mynd i'r afael â breuder cymharol yr economi leol er mwyn sicrhau hyfywdra hirdymor trefi a rhwydweithiau aneddiadau.

Yr oedd pum thema allweddol yn codi dro ar ôl tro, er nad bob amser i'r un graddau:

Ystyrid bod ***Amrywiad*** y sylfaen economaidd yn hollbwysig, am amrywiaeth o wahanol resymau. Ym Mae Ceredigion, y pwrpas yw lleihau gorddibyniaeth ar y Brifysgol a'r sector cyhoeddus; yn nghefn gwlad Canolbarth Cymru a Menai, y pwrpas yw helpu i symud y tu hwnt i sylfaen amaethyddol sydd wedi gwanhau; ym Mae Abertawe a'r Gogledd-Ddywrain, y pwrpas yw atal gorddibyniaeth ar y sector gweithgynhyrchu.

Ystyrid bod ***Medrau a Dysgu*** — yn enwedig dysgu gydol oes — yn bwysig er mwyn helpu cymunedau i ymaddasu ac ymbaratoi ar gyfer rolau newydd. Yr oedd hyn yn wir am godi lefel medrau gweithluoedd traddodiadol ac am ddal a chadw pobl ifainc mewn ardaloedd lle cafwyd colledion, yn enwedig ardaloedd gwledig a'r cymoedd. Yr oedd sawl asiantaeth yn ymhel â hyn, a chytunwyd bod angen gweithredu mwy cyson ac effeithiol gan bartneriaethau lleol.

Dadleuwyd dros sefydlu ***Rhwydweithiau Busnes*** mewn sectorau twf, mewn ardaloedd trefol, ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig megis Cefn Gwlad. Y mae'r galw am addysg flaengar yr un mor bwysig ag ansawdd y cyflenwad o weithwyr. Ystyrid bod gan dwristiaeth a busnesau arbenigol — ym maes gweithgynhyrchu ac ym maes gwasanaethau — botensial ar gyfer datblygu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac aneddiadau llai. Yn achos y trefi mwy, teimlid yn aml bod angen ysbarduno ac adnewyddu'r sector preifat oherwydd gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus am gyflogaeth.

Yr oedd ***rôl TGCh a'r economi wybodaeth*** yn destun a gododd dro ar ôl tro mewn ardaloedd trefol ac mewn ardaloedd gwledig fel ei gilydd, fel modd i gael at farchnadoedd ac fel symbylydd economaidd ynddi hi ei hun. Ystyrid bod darparu isadeiledd TGCh cryfach, yn enwedig band eang, yn bwysig iawn ar gyfer galluogi Cymru i gystadlu ar lefel ryngwladol ac yn y Deyrnas Gyfunol (yr oedd ganddo rôl hefyd i'w chwarae mewn cydlyniad cymdeithasol). Rhoddwyd blaenoriaeth i rôl prifysgolion a chwmnïau technolegol fel symbylwyr hanfodol datblygiad economaidd, yn arbennig mewn ardaloedd gyda chrynoadau trefol mwy, megis Bae Abertawe a De-Ddwyrain Cymru.

Yr oedd ***Cysylltu Gofodol***, er mwyn cynorthwyo 'ymlediad' ffyniant, hefyd yn ystyriaeth allweddol ym Mae Abertawe a De-Ddwyrain Cymru, lle'r ystyrid ei bod yn bwysig ysgogi mynediad yn y Cymoedd i gyfle economaidd, a pheidio â chyfyngu'r buddion i'r rhimyn arfordirol. Trafodwyd a oedd hyn y fater o wella mynediad trwy gludiant i gyfleoedd ar yr arfordir, ynteu'n fater o ddenu datblygiad newydd i'r Cymoedd. Cafwyd trafodaeth gyffelyb ym Menai, yng nghyswllt y syniad o rwydwaith o aneddiadau cyflenwol ar hyd Afon Menai i wasanaethu perfeddwlad lawer ehangach.

Argymhellion ar gyfer yr Economi:

17 Yr ydym yn argymell:

- ***y dylid cadw ac atgyfnerthu'r elfen hon fel rhan allweddol o'r Cynllun Gofodol***
- ***y dylid cadw'r thema amrywiad economaidd, gan dargedu sectorau'n fwy penodol ar gyfer gwahanol rannau o'r wlad***
- ***y dylid cadarnhau medrau a dysgu gydol oes fel elfennau allweddol o'r Cynllun, a nodi gweithgarwch dilyniant penodol***
- ***bod rolau TGCh a datblygiad yr economi wybodaeth yn cael eu blaenoriaethu er mwyn cynorthwyo gweithgarwch datblygu economaidd mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig***
- ***y dylai dull strategol o leoli datblygiad economaidd gysylltu'n gadarnhaol â thwf aneddiadau a chynlluniau adfywio***
- ***y dylai'r dull cysylltu gofodol rhwng ardaloedd mwy difreintiedig a chyfleoedd economaidd gael ei fynegi mewn modd cryfach ar y lefel leol — fesul is-ardal yn ôl pob tebyg***

3.4.3 Y Gymuned

Yr oedd y thema cymunedau yn un bwysig iawn. Cafwyd cefnogaeth i'r dyhead 'trosfwaol' i sicrhau cymunedau cynaladwy. Fodd bynnag, cafwyd gwahanol brofiadau a gwahanol negeseuon o wahanol rannau o'r wlad.

Yn gyffredinol, mynegwyd teimlad bod cymunedau 'traddodiadol' yn agored i niwed, a'u bod dan fygythiad, onid yn diflannu, wrth i ddiwydiant ac amaeth ddarfod. Ystyrid bod y cenedlaethu hŷn yn llai deheuig — yn enwedig yn y trefi traddodiadol — o ran ymaddasu i amgylchiadau newydd, tra bod gwaed ifanc yn allfudo o'r ardaloedd gwledig a'r cymunedau trefoledig megis trefi cymoedd De Cymru.

Yr oedd troseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn atgyfnerthu anawsterau llawer o gymunedau gwantan a difreintiedig, tra bod ardaloedd gwledig megis rhannau o Sir Benfro, Canolbarth Cymru a Menai, lle'r oedd ansawdd bywyd yn well, yn denu mewnfudo, yn enwedig o Loegr. Gan fod y mewnfudo hwn yn ymylu ar fod yn uchel neu'n ddifrifol, teimlwyd ei fod yn gwanhau hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol Gymraeg ac yn creu rhyw fath o gymuned bolareiddiol, ranedig. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod mewnfudo'n creu cyfle am amrywiad economaidd ar sail medrau, cyfalaf ac egni cadarnhaol mewnddyfodiaid.

Ystyrid bod dathlu diwylliant a hunaniaeth Gymraeg, a sicrhau darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy, yn ffyrdd pwysig o wrthbwyso rhai o'r tueddiadau pennaf. Yr oedd hyn yr un mor wir am ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, er bod problem tai fforddiadwy'n fwy enbyd yn yr ardaloedd gwledig, oherwydd pwysau mewnfudo cryfion.

Cydnabuwyd mai adeiladu cymunedau cynaladwy cryfion oedd y flaenoriaeth ddymunol, ond y mae hyn yn gofyn gweithio partneriaeth dyfal, yn enwedig ar draws y sector cyhoeddus a'r sector cymunedol, gan gynnwys yr eglwysi a grwpiau ieuenctid.

Argymhellion ar gyfer y thema Gymunedol:

18 Yr ydym yn argymell:

- ***y dylid cadw ac atgyfnerthu'r elfen hon fel rhan allweddol o'r Cynllun Gofodol***
- ***bod adeiladu gallu a hyder cymunedol o amgylch newid — er enghraifft trwy ddarparu medrau newydd a mynediad i dechnoleg newydd ar gyfer cymunedau traddodiadol — yn hollbwysig i'w lles hirdymor***
- ***y dylid gwneud y defnydd llawnaf o bartneriaethau a rhwydweithiau cymunedol lleol ar gyfer hwyluso a sefydlogi'r broses o newid blaengar y cyfeirir ati yn y Cynllun***
- ***y dylid dathlu'r gwahanol ffurfiau ar ddiwylliant Cymraeg yn gadarnhaol, a'u hesbonio mewn gwahanol ffyrdd, yn hytrach na'u trin fel problem amddiffyn***
- ***y dylid manteisio ar rolau tai fforddiadwy, treftadaeth a diwydiannau fel modd i feithrin diwylliant neilltuol***

3.4.4 Hygyrchedd

Nid oes amheuaeth nad yw hygyrchedd yn amrywio'n aruthrol ar draws Cymru, o gofio daearyddiaeth y wlad. Cododd y pwnc yn aml mewn trafodaethau o'r herwydd, ac fel rheol cafwyd galwadau am strategaeth a gweithredu mwy cyfunol. Fodd bynnag, ni chafwyd unhryw negeseuon cyson, oherwydd amrywiaeth yr amgylchiadau. Efallai mai'r neges bwysicaf yw'r angen am feddwl mwy strategol gan amrediad o chwaraewyr, gan gynnwys y sector preifat.

Diddorol oedd y ffaith fod cludiant, er nad ynddo'i hun yn flaenoriaeth uchaf gyson ar gyfer gweithredu, yn flaenoriaeth uchel yn aml o ran cynnal lles economaidd a mynediad cymunedol.

Yng Ngogledd Cymru, gwelwyd dymuniad cyffredinol i gryfhau'r cysylltiadau gyda Chaerdydd a'r de, er bod dymuniad hefyd yn y Gogledd-Ddwyrain am gysylltiadau cryfach â Gogledd-Orllewin Lloegr, yn enwedig o ran cludiant cyhoeddus, er mwyn tynnu pwysau oddi ar y rhwydwaith ffyrdd. Yn ardal Menai, cafwyd cydnabyddiaeth fod gwelliannau i gludiant ar hyd y coridor arfordirol wedi dod â rhyw gymaint o les, yn ogystal â phwysau newydd ar ffurf mewnfudo. Er y teimlid bod lefel y cludiant cyhoeddus yn rhesymol, cydnabuwyd y byddai'r dalgylch gwledig yn dal i ddibynnu'n drwm ar symud o gwmpas mewn ceir. Yng Nghanolbarth Cymru, cafwyd pryder cyffelyb fod y brif echel yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, a bod angen gwasanaeth rheilffordd mwy aml a gwell cysylltiadau rhwng gogledd a de. Fel yn achos Sir Benfro, cydnabuwyd bod amlder y boblogaeth yn rhy isel i gynnal cludiant cyhoeddus aml iawn o ansawdd uchel.

Yn Ne Cymru, un pryder mawr oedd gwella mynediad o'r Cymoedd i gyfleoedd economaidd a chymdeithasol. Rhaid i hyn ddod yn rhannol ar ffurf cludiant cyhoeddus, er mwyn cydbwyso'r tagfeydd sy'n deillio o gymudo ar hyd coridor yr M4, gan arwain at bwysau i fuddsoddi mewn ffordd liniaru o amgylch Casnewydd.

Codwyd meysydd awyr fel pwnc strategol mewn rhai trafodaethau, gan amrywio o faes awyr 'torfol' yng Nghaerdydd gyda chysylltiadau rhyngwladol o bwys, i rwydwaith gwell o feysydd awyr llai mewn ardaloedd megis Ceredigion a Menai, er mwyn cyflawni swyddogaeth fwy lleol mewn perthynas â'r economi a busnes lleol.

Cafodd ffeïau a phorthladdoedd eu codi hefyd fel pwnc allweddol, oherwydd rôl hirdymor rhai gweithredwyr, ac effaith y twf mewn teithiau awyr rhad. Yr oedd y

trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar y berthynas bresennol gydag Iwerddon, ond gallent gynnwys cysylltiadau newydd â Dyfnaint a Chernyw yn ogystal.

Am gyfuniad o resymau busnes, twristiaeth a gwasanaethau cymunedol, awgrymwyd bod TGCh yn ffactor pwysig ar gyfer mynd i'r afael â phroblem pellenigrwydd a hygyrchedd gwael llawer rhan o'r wlad. Fodd bynnag, gallai hefyd gynnal mynediad mwy effeithiol i ddewisiadau a gwybodaeth mewn perthynas â chludiant cyhoeddus.

Un elfen fawr o'r her ynglŷn â chludiant a mynediad, felly, yw cydbwyso'r gwahanol lefelau o fuddsoddiad er mwyn darparu'r cydbwysedd iawn o atebion ar draws Cymru, nid yn unig er mwyn ymateb i batrymau a phwysau cyfredol ond hefyd er mwyn helpu i sefydlu rhai newydd.

Argymhellion ar gyfer Hygyrchedd:

19 Yr ydym yn argymell:

- ***y dylid cynnal adolygiad o'r anghenion o ran blaenoriaethau buddsoddi mewn cludiant (cyfalaf a refeniw) ar lefel genedlaethol***
- ***y dylid canolbwyntio ar anghenion a chyfleoedd y tymor canol i'r tymor hir — er enghraifft ym maes twristiaeth — yn hytrach nag ymateb i bwysau byrdymor yn unig***
- ***y dylid cynnwys y sector preifat yn weithredol fel darparwr, ond hefyd fel defnyddiwr***
- ***y dylid llunio srategaeth flaengar sydd yn caniatáu newid cynyddrannol a buddsoddi parhaol, gan gynnwys cludiant awyr a môr yn ogystal â chludiant ar dir***
- ***y dylid ystyried buddsoddi mewn TGCh yn elfen o gysylltedd cyflenwol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a llai poblog***

4 Symud y Cynllun Gofodol yn ei Flaen

4.1 Cynllun Pwy? — perchenogaeth a statws

Cododd llawer o'r ymgynghoreion ystyriaethau ynglŷn â rôl a statws y Cynllun Gofodol, yn enwedig sut y byddai ei ddarpariaethau'n cael eu dilyn drwodd mewn gwahanol ffyrdd. Yr oedd mwyafrif y cyfranogwyr yn croesawu natur gynhwysol y Cynllun a'r fframwaith cyfeiriadol eang yr oedd yn ei sefydlu.

Fodd bynnag, mynegwyd amheuon yn y rhan fwyaf o'r sesiynau ynglŷn â sut y gallai'r gweithio cydweithrediadol yr ymchwiliwyd iddo yn y sesiynau prynhawn gael ei symud yn ei flaen yn effeithiol — naill ai ar lefel genedlaethol neu ar lefel ardaloedd lleol. Gwnaed sawl awgrym y dylai fod gan y Cynllun statws cyfreithiol cryfach a mwy gorfodadwy, ac awgrymodd llawer na fydd ganddo lawer o rym oni bai bod ganddo gysylltiadau â chyfundrefnau ariannu.

Ein dehongliad ni, ar sail y gwahanol ddigwyddiadau, oedd fod rhai'n ystyried bod y Cynllun yn perthyn yn bennaf, onid yn llwyr, i Lywodraeth Cynulliad Cymru, tra bod y mwyafrif o'r farn fod gan y Cynllun berchenogaeth ehangach, ond gyda'r cyfrifoldeb cydlynu arweiniol yn aros gyda LICC. Y perygl gyda dogfen o natur dra-chyfarwyddol, er ei bod yn gallu bod yn glir wrth gyfarwyddo rhai pethau, yw nad yw'n sicrhau'r ymgynghreirio sydd ei angen er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu gweithredu ledled Cymru. Ein dehongliad ni yw mai'r ail ddewis, mwy cynhwysol ei nature, sydd yn fwy tebygol o fod yn effeithiol o ran sicrhau gweithrediad ar draws yr amrediad eang o gyfranogion, ar yr amod bod yna ymrwymiad iddo ar draws gwahanol elfennau LICC a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs), yn enwedig mewn perthynas ag ariannu.

Yn ôl y dull hwn, nid yw'r Cynllun yn ddogfen arunigol sy'n cyfarwyddo 'o'r pen i'r gwaelod', ond yn hytrach yn sylfaen ar gyfer camau cydweithrediadol pellach wrth ei weithredu. Yr ydym yn credu mai hyn, hefyd, yw'r dehongliad cywir o'r disgwyliadau a gafodd eu mynegi yn ystod y broses ymgynghori.

Ein hargmhelliad ynglyn â statws a gweithredu:

20 Yr ydym yn argymell:

- ***y dylid cynnal adolygiad o statws bwriedig cyfredol y Cynllun Gofodol er mwyn sicrhau y bydd yn effeithiol***
- ***y dylid ei uwchraddio er mwyn ei wneud yn fwy effeithiol, os bydd angen***
- ***y dylid mabwysiadu'r ymagwedd mai gan y Cynulliad y mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw, ond bod ganddo berchenogaeth ehangach ymysg y gwahanol gyfranogion ar draws Cymru, yn enwedig y rhai sydd eu hangen ar gyfer ei weithredu***

4.2 Rhwydweithiau rhanbarthol ac is-ranbarthol

Gan ddilyn y thema gydweithrediadol hon, ac ar sail ein profiad yn y rhan fwyaf o'r digwyddiadau ymgynghori, yr ydym o'r farn ei bod yn rhesymegol ac yn ddymunol i barhau gyda datblygu'r Cynllun a gyda'r elfennau gweithredu, trwy rwydweithiau cydweithrediadol ar lefel ardal neu is-ranbarth. Fel a nodwyd, bydd angen i rai o'r rhain ymestyn y tu hwnt i Gymru.

Fe allai rhai o allbynnau'r cydweithrediad hwn ymddangos yn fersiwn nesaf y Cynllun ar ffurf datganiad cwmpas a bwriad ar gyfer yr ardaloedd hyn. Mewn rhai materion eraill, fe allai'r mewnbynnau gan bartneriaid cydweithrediadol gael eu canolbwyntio mwy ar brosesau effeithiol nad ydynt yn cael eu mynegi'n gryf yn y Cynllun, ond sydd serch hynny'n bwysig iawn i'w weithrediad.

Fe dylai fod yn elfen allweddol bwysig o'r rhain eu bod yn llorweddol o ran pynciau sectoraidd ac ardaloedd awdurdodau lleol. Dylai'r ffocws fod ar ardaloedd gweithrediadol o safbwynt dynol — dalgylchoedd, rhwydweithiau o aneddiadau, a chyrion neu goridorau cymudo — yn hytrach nag o safbwynt daearyddol, daearegol neu dopograffig, er y dylai'r elfen amgylcheddol barhau i fod yn bwysig iawn.

Ein hargymhellion ynglŷn â chydweithredu:

21 Yr ydym yn argymell:

- ***y dylid parhau i ddatblygu'r Cynllun, a'i weithrediad wedi hynny, trwy rwydweithiau cydweithrediadol eang ar y lefel genedlaethol ac ar y lefel ranbarthol neu is-ranbarthol***
- ***y dylai'r rhwydweithiau hyn gysylltu mentrau presennol ar draws themâu ac ar draws ffiniau awdurdodau lleol***
- ***y dylai eu gwaith gyfrannu at, a pharhau y tu hwnt i, gyhoeddiad y Cynllun, gan ganolbwyntio ar weithrediad***

4.3 Cysylltu ar draws Llwydoraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs)

Fel a nodwyd eisoes, cafodd mater sicrhau ymrwymiad ac integreiddio ar draws yr agendâu polisi a gweithrediad ei godi lawer gwaith. Yr oedd cynrychiolaeth dda o lawer o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn y gwahanol sesiynau, ac maent yn ymddangos yn ymroddedig i'r broses.

Fodd bynnag, yr oedd cynrychiolaeth o adrannau a swyddogaethau perthnasol y Cynulliad yn llai amlwg. Bydd sicrhau eu bod yn cymryd rhan ym mhroses ac allbynnau'r Cynllun Gofodol, ac yn eu cefnogi, yn gwbl hanfodol am sawl rheswm — (1) er mwyn sicrhau'r cyfunioniad polisi mwyaf sy'n bosib; (2) er mwyn lleihau gwrthddywediadau; a (3) er mwyn sicrhau bod gan y Cynllun hygrededd a dilysrwydd yn llygaid y grwpiau ehangach o gyfranogion.

22 Ein hargymhellion ynglŷn â'r mewnbynnau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw:

- ***y dylid cyflwyno perianweithiau ar gyfer cynyddu gallu a chyfunioniad traws-thematig o amgylch amcanion a darpariaethau'r Cynllun Gofodol yn holl sectorau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru***
- ***y dylid sicrhau bod y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn dal i gymryd rhan weithredol yn esblygiad y Cynllun a'i beirianweithiau gweithredu***

Atodiad 1

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Briffio Cenedlaethol — Gogledd Cymru
Dydd Gwener 17eg Hydref 2003
Canolfan Gynadledda Gogledd Cymru — Llandudno

Enw	Sefydliad
Gareth Winston Roberts	CDC Ynys Môn dros Gynllunio
Einir Young	Prifysgol Bangor
Gareth Wyn Jones	Prifysgol Bangor
Helen Mrowiec	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Jan Tyer	CDN Cynllunio
Richard Jarvis	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Paul Mitchell	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Roger Thomas	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
P. Minto	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Bob Lowe	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Iwan T Jones	Cyngor Gwynedd
Tomos Evans	Cyngor Gwynedd
Lara Griffiths	Cyngor Sir Ddinbych
Lyndsay Bowman	Cyngor Sir Ddinbych
Dyfan Barr	Cyngor Sir Ddinbych
Ken Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Y Cyng. Meirion Matthews	Cyngor Sir y Fflint
Chirs Kay	Cyngor Sir y Fflint
Arthur Owen	Cyngor Sir Ynys Môn
R. Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Jill Venus	Partneriaeth Canolbarth Cymru
Alun Pugh	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Denise Idris Jones	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Paul Claydon	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Oliver Bird	Cynulliad Rhanbarth y Gogledd-Orllewin
E.M.Jones	Cyngor Sir Powys
Phil Jackson	Cyngor Sir Powys/TraCC
Richard Baddeley	RICS Cymru
Merfyn Williams	Fforwm Datblygu Cynaladwy i Gymru
Aled Sturkey	Parc Cenedlaethol Eryri
Dee Reynolds	Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
Dewi Davies	Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
Gwenan Davies	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
J M Lonsdale	Awdurdod Datblygu Cymru
K. Beard	Awdurdod Datblygu Cymru
Shân Wilkinson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Isobel Garner	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Clive Nicholas	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Morgan Parry	Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd/Cyswllt Cymru

Atodiad 2

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Briffio Cenedlaethol — De Cymru
Dydd Llun 20fed Hydref 2003
Arena Ryngwladol Caerdydd

Enw	Sefydliad
John J Hopkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Gareth Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Eric Bowles	Parc Cendlaethol Bannau Brycheiniog
A. Powell	Dyfrffyrdd Prydain
Rhys Dafis	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
M. Evans	d/o Dyfrffyrdd Prydain
Paul Carter	Cyngor Sir Caerdydd (SEWTB)
Helen Williams	Cyngor Sir Caerdydd
Julian Stedman	Cyngor Sir Caerdydd
Alan Hooper	Prifysgol Caerdydd
Neil Harris	Prifysgol Caerdydd
EW Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cyng. Pam Palmer	Cyngor Sir Caerfyrddin
Emma Watkins	CBI Cymru
Keith Davies	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Tim Ball	Cyngor Sir Ceredigion
Vicki Lloyd	Siambr Cymru
Bailjit Gill	Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Sylvia Davies	Cyngor y Parciau Cenedlaethol
Julian Salmon	Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Russell De'ath	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
L. Evans	ELWa
S. Hughes	ELWa
M.A. Jacob	Cyfeillion y Ddaear Cymru
Julian Rosser	Cyfeillion y Ddaear Cymru
Bill Horne	Heddlu Gwent
James Welsh	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai /Persimmon Homes
R G Woodhead	Gwanasaeth Cynllunio Swydd Henffordd
Jessica White	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
P R Crawford	Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jeff Martin	Cyngor Sir Mynwy
Lesley Punter	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
P. Rossiter	Y Cyngor Cenedlaethol – ELWa
S. Wild	Cyngor Sir Casnewydd
Noel Crowley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot
Will Watson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot
S M Hurr	Cyngor Sir Penfro
Nic Wheeler	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Alan Langton	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Dave Keast	Cyngor Sir Powys
Keith Annis	Redrow Homes

Margaret Lewis	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cathy McLean	RICS Cymru
Richard Essex	RICS Cymru
Rebecca Phillips	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
Emma Harvey	Bwrdd Trafnidiaeth De-Ddwyrain Cymru
Rob Thomas	Bwrdd Trafnidiaeth De-Ddwyrain Cymru
Guy Hamilton	Cyngor De Swydd Gaerloyw/TSPTU
Hugh Thomas	Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
R Crawshaw	SWWEF
Mark Tewdwr Jones	Coleg Prifysgol Llundain
Don Webber	Cyngor Bro Morgannwg
Nigel Keane	Uned Partneriaeth Gymdeithasol Cymru
S Webb	Bwrdd Croeso Cymru
C Jones	Bwrdd Croeso Cymru
Stuart Cole	Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru
Mike Cuddy	Awdurdod Datblygu Cymru
Gareth Hall	Awdurdod Datblygu Cymru
Mark Stephens	Awdurdod Datblygu Cymru
Nicholas Neal	Awdurdod Datblygu Cymru
C Morris	Awdurdod Datblygu Cymru
Tom Bourne	Awdurdod Datblygu Cymru
Nich Pearson	Cyngor Defnyddwyr Cymru
Clive Counsell	Cyflenwadau Iechyd Cymru
Y Cyng. Harry G Jones	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Kevin Bishop	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad 3

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Gweithdy Treialu
Dydd Llun 27ain Hydref 2003
Neuadd y Ddinas — Caerdydd

Enw	Sefydliad
Karen Maddock-Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Peter Wilson	Adran yr Amgylchedd
Jonathon Price	Adran Cyngor Economaidd y Cynulliad
Marion Davies	Adran Datblygu Economaidd y Cynulliad
Simon Slater	Fforwm ar gyfer y Dyfodol
Chris Riley	Is-Adran Datblygu Polisi Gwasanaethau Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mary Hughes	Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol
Jasper Roberts	Polisi Cefn Gwlad
Mark Johncock	Uned y Cynllun Gofodol
Natalie Grohmann	Uned y Cynllun Gofodol
Grant Duncan	Uned y Cynllun Gofodol
Matthew Quinn	Uned y Cynllun Gofodol
Mike Cuddy	Awdurdod Datblygu Cymru
Rachel Jowitt	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad 4

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Bae Ceredigion
Dydd Mawrth 11eg Tachwedd 2003
Prifysgol Aberystwyth

Enw	Sefydliad
Gerwyn Jones	Cyngor Sir Ceredigion
R Hughes-Pickering	Cyngor Sir Ceredigion
Tim Ball	Cyngor Sir Ceredigion
Keith Morgan	Cyngor Sir Ceredigion
Mike Shaw	Cyngor Sir Ceredigion
Eleri Ebenezer	Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru
Keith Davies	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Paul Varallo	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Steve Fletcher	ELWa
Ellen Jones	Menter a Busnes
Mark Jones	Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Justin Lewis	Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Stephen Hurr	Cyngor Sir Penfro
David Lewis	Cymdeithas Eryri
Helen Woodbury	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sarah Richards	Cyngor Defnyddwyr Cymru
Adrian Leonard	Awdurdod Datblygu Cymru
Steffan Roberts	Awdurdod Datblygu Cymru
Marc Welsh	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Rachel Jowitt	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad 5

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Dwyrain Powys
Dydd Mercher 12fed Tachwedd 2003
Coleg Powys — Y Drenewydd

Enw	Sefydliad
Steve O'Sullivan	Dyfrffyrdd Prydain
Deb Wozencraft	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Hazel Drewett	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ken Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Alice Earp	Y Sefydliad Iechyd Gwledig
Chris Lambert	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Jessica Bradley	Cyngor Cenedlaethol Technoleg Addysgol (NCET) Cymru
Y Cyng. Michael Jones	Cyngor Sir Powys
Graham Davey	Cyngor Sir Powys
Ian Fraser	Cyngor Sir Powys
Steve Burgess	Cyngor Sir Powys
Dave Keast	Cyngor Sir Powys
Chris Wilson	Cyngor Sir Powys
Nick Smith	Cyngor Sir Powys
Mike Lloyd	Cyngor Sir Powys
Gwenan Davies	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Trish Armstrong	Bwrdd Croeso Cymru
Dee Reynolds	Bwrdd Croeso Cymru
Mike Bacigalupo	Awdurdod Datblygu Cymru

Atodiad 6

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Gogledd-Ddwyrain Cymru
Dydd Mercher 26ain Tachwedd 2003
Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru

Enw	Sefydliad
Toni Garnett	Rhwydwaith Arena
Marc Evans	Dyfrffyrdd Prydain
Charlie Seward	Cyngor Sir Caer
Jenny Bicknell	Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys/ Cyngor Archeoleg Prydain
Patti Fitton	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Mike Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Andrew Dale	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Richard Jarvis	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Susan Broadaway	Cyngor Sir Ddinbych
Lara Griffiths	Cyngor Sir Ddinbych
Andrew Martin	ELWa
Martin Mills	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Chris Kay	Cyngor Sir y Fflint
Mervyn Davies	Cyngor Sir y Fflint
Richard Siddons	Y Comisiwn Coedwigaeth
Ian Brooke	Swyddfeydd y Llywodraeth, Gogledd-Orllewin
Iain Jenkinson	GVA Grimley
Nick Ireland	GVA Grimley
Helen Worsley	Grid Cenedlaethol Transco
Melanie Emery	Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru
Imelda Bowers	Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru
Stan Moore	Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru
Jon Talbot	Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru
Ernie Williams	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Steve Murray	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gareth Clegg	Asiantaeth Datblygu'r Gogledd-Orllewin
Iain Smith	NWRA
Sue Gittens	Cymdeithas y Cerddwyr
Mary Robinson	Cymdeithas y Cerddwyr ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Olivier Sykes	Prifysgol Lerpwl
Huw Brodie	Llwyodraeth Cynulliad Cymru
Sasha Davies	Awdurdod Datblygu Cymru
Imogen Sherriff	Awdurdod Datblygu Cymru
Rachel Jowitt	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Lawrence Isted	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Michael Cantwell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Malcolm Phillips	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Paul Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Atodiad 7

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Menai
Dydd Iau 27ain Tachwedd 2003
Gwesty'r Celt — Caernarfon

Enw	Sefydliad
Jas Chanay	
Vin West	Arfon Axess Group
David Evans	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Rory Francis	Coed Cadw
Stan Yates	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Lindsey Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Rob Dix	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bob Lowe	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Arwel E Jones	Cyngor Gwynedd
Richard Thomas	Cyngor Gwynedd
Aled Davies	Cyngor Gwynedd
Sharon Warnes	Cyngor Gwynedd
S.E. Williams	Cyngor Gwynedd
Pete Wight	Cyngor Gwynedd
Meirion Davies	Cyngor Sir Ynys Môn
Dewi Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn
Dylan William	Cyngor Sir Ynys Môn
Ieuan Ellis	ELWa
Deborah Hemsworth	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Dafydd Iwan	Cyngor Gwynedd
Arthur Owen	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Roberts	Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru
David Archer	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
D G Robers	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
David Evans	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Alan James Bevan	Heddlu Gogledd Cymru
Ifan Hughes	Heddlu Gogledd Cymru
Owain Wyn	Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Owain Wyn
Bob Newton	Wedi ymddeol
David Barraclough	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
Elwyn Thomas	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Morag McGrath	Cymdeithas Eryri
Mair Jones	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Gareth A Rennie	Prifysgol Bangor
Einir Young	Prifysgol Bangor
Professor Gareth Wyn Jones	Prifysgol Bangor
Trefor Wyn Jones	Awdurdod Datblygu Cymru

Atodiad 8

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Cefn Gwlad
Dydd Mawrth 2il Rhagfyr 2003
Gwesty Cwm Elan — Rhaeadr Gwy

Enw	Sefydliad
Eric Bowles	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
M C Shaw	Cyngor Sir Ceredigion
Garfield Williams	Cyngor Sir Ceredigion
Hazel Drewett	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Marita Fusser	Cymdeithas Eryri
Pete Wight	Cyngor Gwynedd
Michael Rolt	Ymddiriedolaeth Cwm Elan
John L Evans	Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Morlis Owens	Ymddiriedolaeth Cwm Elan ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Gareth O'Shea	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
John Phillips	Undeb Amaethwyr Cymru/Rhwydwaith Cefnogi Gwledig Powys/Partneriaeth Adfywio Powys
Chris Lambert	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
N S Willcox	Cyngor Sir Powys
J B Wright	Cyngor Sir Powys
J Thomas	Cyngor Sir Powys
Mark Brown	Cyngor Sir Powys
Edgar Jones	Cyngor Sir Powys
Ruth Reed	Reed Architects
A D G Walker	Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
Jim O' Rourke	Urdd Gobaith Cymru
Siwan Gryndaf	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jasper Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dai Rogers	Awdurdod Datblygu Cymru
Simon Thompson	Awdurdod Datblygu Cymru
Gareth Llewelyn	Awdurdod Datblygu Cymru
M J Stephens	Awdurdod Datblygu Cymru
K L Latham	Awdurdod Datblygu Cymru – Datblygu Busnes

Atodiad 9

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Bae Abertawe
Dydd Mawrth 9fed Rhagfyr 2003
Theatr y Dywysoges Frenhinol — Porth Talbot

Enw	Sefydliad
Mike Cherry	Rhwydwaith Amgylcheddol Black
Richard Metford	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Richard Dommett	Dyfrffyrdd Prydain
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Nia Lewis	Cyngor Sir Caerfyrddin
Stephen Convill	Cyngor Sir Caerfyrddin
David Whitehead	Dinas a Sir Abertawe
Kim Flanders	Dinas a Sir Abertawe
Rowland Lanchbury	Dinas a Sir Abertawe
Steve White	Dinas a Sir Abertawe
Dave McKenna	Dinas a Sir Abertawe
Karen Maddock Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Phil Coombe	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Eurgain Powell	Fforwm i'r Dyfodol
P Bailey	Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Richard Bevins	Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Sian Jones	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Tony Pew	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Porth Talbot
Mike Richardson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot
Owain Lewis	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot
Councillor Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot
Geoff White	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot
Simon Brennan	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Porth Talbot
Jeanie Gray	Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
Paul Loveluck	Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Dawn Blower	Heddlu De Cymru
Andrew Barker	Heddlu De Cymru
Richard Crawshaw	Fforwm Economaidd De-Orllewin Cymru
Andrew Bellamy	Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
Gordon Gibson	Sylfaen Gymunedol
Carys Jones	Bwrdd Croeso Cymru
Mike Cuddy	Awdurdod Datblygu Cymru
Howard French	Awdurdod Datblygu Cymru
Phil Morris	Awdurdod Datblygu Cymru
Tim Hooper	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
S.P.Byrne	WEFO

Atodiad 10

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad Hafan Sir Benfro
Dydd Mercher 10fed Rhagfyr 2003
Castell Picton — Arberth

Enw	Sefydliad
Linda Jones	Acanthus Holden Architects
Rob Sully	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amanda Reid	CAVO
Karen Maddock Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Paul Varallo	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Alex Wigmore	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ifor Jones	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Edward Holdaway	Fforwm Arfordir Sir Benfro
David Sandy	Cyngor Sir Penfro
Kefyn Wakefield	Cyngor Sir Penfro
David Astins	Cyngor Sir Penfro
Stephen Hurr	Cyngor Sir Penfro
Tony Mizen	Awdurdod Datblygu Cymru
Betsan Caldwell	Awdurdod Datblygu Cymru

Atodiad 11

POBL, LLEOEDD, DYFODOL — CYNLLUN GOFODOL CYMRU
Digwyddiad De-Ddwyrain Cymru
Dydd Mawrth 6ed Ionawr 2004
Canolfan Fusnes Morgannwg — Pontypridd

Enw	Sefydliad
Steve Pritchard	Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain
Kelly Collins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Ged McHugh	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Robert Murray	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Alan Powell	Dyfrffyrdd Prydain
Richard Dommett	Dyfrffyrdd Prydain
Mark Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Jan Bennett	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tim Peppin	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Justin Cooper	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Sian Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Roger Tanner	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Margaret Hunt	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Vic Warren	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Claire Saralis	Siambr Fasnach Caerdydd
Jason Dixon	Cyngor Sir Caerdydd
Rachel Jones	Cyngor Sir Caerdydd
David Holtam	Cyngor Sir Caerdydd
John Paxton	Cyngor Sir Caerdydd
Alan Hooper	Prifysgol Caerdydd
Neil Harris	Prifysgol Caerdydd
L.Mair Jones	Comisiynydd Plant Cymru
Chris Webb	Yr Eglwys yng Nghymru
Robin Morrison	Yr Eglwys yng Nghymru
D R Owen	Bwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu
Emma Plunkett Dillon	Cyngor Archeoleg Prydain
Karen Maddock Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Susan Howard	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ryan Bowen	Dŵr Cymru
Jackie Boarer	Dŵr Cymru
Nick Moon	Cyllid Cymru
Eleanor Knight	Cyllid Cymru
Antony Wallis	Y Comisiwn Coedwigaeth
Barbara Spence	Y Comisiwn Coedwigaeth
Michael Jacob	Cyfeillion y Ddaear
Tegwen Curnell	Ffederasiwn Sefydliad y Merched Morgannwg
J Walsh	Groundwork Wales
Howard Rees	Heddlu Gwent
Simon Prince	Heddlu Gwent
Jessica White	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

David Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Rebecca Lockwood	Cyngor Sir Mynwy
Adrian Wilcock	Cyngor Sir Mynwy
Stuart Agnew	Cyngor Dinas Casnewydd
Stewart Wild	Cyngor Dinas Casnewydd
Wyn Mitchell	Cyngor Dinas Casnewydd
Judith Ingram	Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Milica Kitson	Canolfan Ailfeddwl Adeiladu Cymru
Chris Ashman	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Richard Essex	RICS Cymru
Katie-Jo Luxton	RSPB Cymru
John Sheppard	Fforwm Economaidd De-Ddwyrain Cymru
Margaret Everson	Steer Davies Gleave
Geraint Northam	Steer Davies Gleave
Matt Price	Sustrans
John Palmer	Sustrans Cymru
Geraint Hopkins	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaehol
Clare Taylor	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Duncan Smith	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Deborah James	Prifysgol Morgannwg
Samantha Cherryman	Prifysgol Morgannwg
David Jenkin	Prifysgol Morgannwg
Chris Williams	Prifysgol Morgannwg
Andrew Wallace	Cyngor Sir Bro Morgannwg
Lucy Turner	Cyngor Sir Bro Morgannwg
Yvonne Prichard	Cyngor Sir Bro Morgannwg
Don Webber	Cyngor Sir Bro Morgannwg
Huw Isaac	Cyngor Sir Bro Morgannwg
Audrey Jones	Cynulliad Merched Cymru
Richard Spear	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Lesley Punter	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jonathon Fudge	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tony Parker	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ian Thomas	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Basil Hollington	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Kay Powell	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Beverley Delacruz	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mary Hughes	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mike Cuddy	Awdurdod Datblygu Cymru
Gareth Beer	Awdurdod Datblygu Cymru
Paul Williams	Awdurdod Datblygu Cymru
Kevin Bishop	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mark Roberts	Wyn Thomas Gordon Lewis